# Cartrefi Caerffili

# Datganiad o Bolisi a Gweithdrefn ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**DATGANIAD O BOLISI A GWEITHDREFN AR GYFER YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

**RHAN 1 – DATGANIAD O BOLISI** **Tudalen**


1. Rhagarweiniad 3
2. Datganiad o bolisi 4
3. Diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol 5
4. Categorïau ymddygiad gwrthgymdeithasol 5
5. Datganiad o bolisi cyffredinol 7
   - 5.1 Cyfrifoldebau/disgwyliadau deiliad y contract 8
6. Atal 9
   - 6.1 Cyfryngu 9
   - 6.2 Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol 9
   - 6.3 Teledu Cylch Cyfyng 9
   - 6.4 Diogelu drwy Ddylunio 9
   - 6.5 Contractau Ymddygiad Derbyniol 9
   - 6.6 Cymorth/Prosiectau dargyfeiriol 10
7. Cymorth 10
   - 7.1 Cymorth i'r sawl sy'n gwneud adroddiad 10
   - 7.2 Cynllun Cymorth i Dystion 11
   - 7.3 Cymorth i'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans 12
8. Gorfodi 13
   - 8.1 Ysgrifennu at/cyfweld â'r sawl sy'n destun adroddiad 14
   - 8.2 Defnyddio offer monitro sŵn 14
   - 8.3 Contractau Ymddygiad Derbyniol 14
   - 8.4 Contractau Landlordiaid 14
   - 8.5 Rhybudd Ysgrifenedig 14
   - 8.6 Rhybudd Ysgrifenedig Olaf 15
   - 8.7 Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 15
   - 8.8 Gorchymyn Ymddygiad Troseddol 15
   - 8.9 Rhybuddion a Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned 15
   - 8.10 Gorchymyn Cau Eiddo 15
   - 8.11 Gwaharddebau Sifil 16
   - 8.12 Gorchymyn Ymddygiad Gwaharddedig 16
   - 8.13 Terfynu buddiant cyd-ddeiliad contract 16
   - 8.14 Achosion Adennill Meddiant 17
   - 8.15 Troi allan 17
   - 8.16 Gorchmynion llys ar gyfer adennill meddiant – rhesymoldeb 17
9. Gwaith partneriaeth amlasiantaeth 18
10. Polisïau cam-drin domestig 19
    - 10.1 Diffiniadau 19
    - 10.2 Effaith cam-drin a thrais domestig 20
    - 10.3 Asiantaethau 20
    - 10.4 Cyd-ddeiliaid contract diogel a cham-drin domestig 21
11. Digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb 21
12. Rhannu gwybodaeth 22
13. Cyfrinachedd 22
14. Recordio galwadau ffôn 23
15. Hyfforddi staff ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol 23
16. Monitro ymddygiad gwrthgymdeithasol 23
    - 16.1 Dangosyddion perfformiad 23
17. Adolygu 24

**RHAN 2 – DATGANIAD O WEITHDREFNAU**


1. Nodau ac amcanion gweithredu 25
2. Cyfrinachedd 25
3. Gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol 26
4. Graddio ac asesu adroddiad 27
5. Ymchwilio i adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol 28
   - 5.1 Cyfweld â'r sawl sy'n gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol 28
   - 5.2 Ymchwiliadau ehangach 29
   - 5.3 Cyfweld â'r sawl sy'n destun yr adroddiad 29
   - 5.4 Tystiolaeth 30
6. Cymorth i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad 30
7. Monitro adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol 31
8. Cau'r achos 31
9. Manylion cyswllt 32
10. Argaeledd polisi a gweithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol 33

Atodiad 1 – Asesiad o'r Effaith 34–35

## RHAN 1 – DATGANIAD O BOLISI

## 1. Rhagarweiniad

Mae Deddf Tai 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, yn rhoi dyletswydd ar Cartrefi Caerffili, fel landlord cymdeithasol, i lunio, cyhoeddi ac adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Yn ogystal, rhaid iddo lunio crynodeb hefyd a threfnu iddo fod ar gael i'r cyhoedd ar gais. At ddiben y ddogfen hon, mae'r term ‘Cartrefi Caerffili’ yn disgrifio rôl landlord cymdeithasol. Defnyddir ‘Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili’ (‘y Cyngor’) i ddisgrifio'r Cyngor cyfan.

Mae dwy ran i'r ddogfen benodol hon: Datganiad o Bolisi yw'r rhan gyntaf, a Datganiad o Weithdrefnau yw'r ail ran. Nod y ddogfen hon yw rhoi darlun clir o gyfrifoldebau Cartrefi Caerffili fel landlord cymdeithasol, dull Cartrefi Caerffili a sut y mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans mewn modd effeithiol. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (‘Deddf 2016’). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn creu ‘deiliaid contract’ (yn lle'r term ‘tenantiaid’) a ‘contractau diogel’ (yn lle'r term ‘cytundebau tenantiaeth’). Mae Adran 55 o Ddeddf 2016 yn cyflwyno ‘ymddygiad gwaharddedig’, sy'n deler sylfaenol sy'n ymwneud yn benodol â niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Deddf 2016 hefyd yn cyflwyno cyfrifoldeb ar landlordiaid i roi cyngor priodol i ddeiliaid contract diogel mewn perthynas â chwynion am niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n dod o fewn cylch gwaith Adran 55 – Ymddygiad Gwaharddedig. Mae'r teler sylfaenol hwn wedi'i ymgorffori yn y contractau diogel, safonol ac ymddygiad gwaharddedig a ddarperir gan Cartrefi Caerffili.

Mae dyletswydd ar Cartrefi Caerffili i orfodi ei gontract diogel, cytundeb lesddaliad neu gyfamodau caethiwus, ond mae dyletswydd arno hefyd i ddiogelu ei ddeiliaid contract diogel, ei lesddeiliaid ac, mewn rhai achosion, ei breswylwyr preifat. Mae'r polisi hwn, felly, yn berthnasol i holl ddeiliaid contract diogel, deiliaid contract ymddygiad gwaharddedig a lesddeiliaid Cartrefi Caerffili; trigolion y Fwrdeistref Sirol y mae eu hymddygiad yn cael effaith ar rôl Cartrefi Caerffili fel landlord, a gellir ei ddefnyddio i amddiffyn staff ac asiantiaid sy'n cyflawni swyddogaethau Cartrefi Caerffili. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw Gontract Safonol a Deiliaid Contract Safonol a allai fod gan Cartrefi Caerffili yn y dyfodol. At ddiben y ddogfen hon, ystyrir bod y Polisi a'r Weithdrefn yn berthnasol i'r holl bobl hyn oni nodir yn wahanol fel arall.

Wrth lunio'r ddogfen hon, mae Cartrefi Caerffili wedi ymgynghori â nifer o'i randdeiliaid er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau a'r dull gweithredu y cytunwyd arno yn unol â, ac yn ategu, Cynllun Corfforaethol 2018–2023 – yn enwedig Amcan 3, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili 2018–2023 a Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Gwent 2019.

Mae Cartrefi Caerffili wedi mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar niwed wrth ymdrin ag adroddiadau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans, a bydd yn cymryd camau gweithredu yn gyflym ac yn bendant, lle bo'n bosibl, a bydd yn cynnal ei ymchwiliadau mewn modd proffesiynol a gwrthrychol.

Bydd y ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd, ac i unrhyw barti sydd â buddiant, ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – www.caerffili.gov.uk – ac ym mhob un o Swyddfeydd Tai Cartrefi Caerffili.

Mae'r Polisi a'r Weithdrefn hyn yn ddwyieithog, a fe'u darperir mewn unrhyw iaith neu fformat arall ar gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y ddogfen hon, neu os ydych yn dymuno gwneud sylwadau neu argymhellion ar gyfer adolygiadau o'r ddogfen yn y dyfodol, gallwch wneud hynny drwy ffonio'r Rheolwr Gorfodi Tenantiaeth ar (01443) 811440; drwy anfon e-bost i: GorfodiTenantiaeth@caerffili.gov.uk; neu drwy ysgrifennu at: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tai'r Sector Cyhoeddus, Blwch Swyddfa'r Post 129, Hengoed CF82 9BQ.

## 2 Datganiad o bolisi

Er bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn rhoi pwerau ehangach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae nifer o rwymedigaethau eraill, mwy eang, wedi'u rhoi ar y Cyngor gan ddeddfwriaeth arall sy'n bodoli eisoes:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddfau Plant 1989 a 2004
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelu Data 1998, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2016), Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000/Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Troseddau Difrifol 2015
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae angen i'r Cyngor, felly, sicrhau bod unrhyw bolisi neu weithdrefn sydd ar waith yn gyson ac yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a'r gofynion a roddir arno gan y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol o bell ffordd, a'i phwrpas yw rhoi syniad o ystod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Mae nifer o strategaethau a pholisïau lleol hefyd sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon, ac mae angen i'r polisi hwn gyd-fynd â'r rhain. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Lles Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024
- Cynllun Busnes Cartrefi Caerffili 2021–2022
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Polisïau a Gweithdrefnau Tai'r Sector Cyhoeddus
- Polisïau Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd
- Strategaeth Ranbarthol Gwent ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018–2023

Nod pennaf Polisi a Gweithdrefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cartrefi Caerffili yw darparu fframwaith er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i bob digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans mewn modd sy'n gyson, priodol a chymesur. Mae'r polisi a'r weithdrefn yn ceisio ategu nodau ac amcanion ehangach y strategaethau a'r cynlluniau cysylltiedig hyn er mwyn i ddeiliaid contract/preswylwyr fwynhau eu cartrefi mewn heddwch, creu cymunedau diogel a chydlynol a gwella ansawdd bywyd i ddeiliaid contract, lesddeiliaid a phreswylwyr yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r polisi'n ceisio ategu a chynorthwyo ymdrechion Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach ac asiantaethau lleol eraill drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn darparu ymateb cydweithredol i ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans.

Gellir cyflwyno adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn uniongyrchol i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth. Bydd yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn cyfeirio adroddiadau am elfennau rheoli ystadau o'r denantiaeth neu ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans risg isel i'r Swyddfa Dai berthnasol i ymchwilio iddynt. Gweler enghreifftiau yn Adran 4 isod. Bydd adroddiadau sy'n cael eu cyfeirio yn anghywir at yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn cael eu hailgyfeirio fel sy'n briodol.

Wrth lunio'r ddogfen hon, mae Cartrefi Caerffili wedi ystyried ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo perthynas dda a pharch o fewn a rhwng ein cymunedau, preswylwyr, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'r gweithlu. Byddwn hefyd yn mynd ati i sicrhau bod gan bawb yr un cyfle i ddefnyddio ein gwasanaethau, ni waeth eu tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb dros unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall nad oes modd ei gyfiawnhau. Mae gan yr elfen hon o'r ddogfen polisi a gweithdrefn gysylltiadau clir â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024 y Cyngor, a bydd yn ategu'r canllawiau y mae'n eu cynnig.

## 3 Diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans

Defnyddir dau ddiffiniad i ddiffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Mae'r ddau wedi'u cynnwys yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 – Rhan 1. Pwrpas hyn yw sicrhau ein bod yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans mewn cyd-destun tai a heblaw tai hefyd.

- ‘Lle mae ymddygiad yn medru achosi niwsans neu annifyrrwch i unigolyn mewn perthynas â meddiannu eiddo preswyl neu mae'r ymddygiad yn medru achosi niwsans neu annifyrrwch sy'n gysylltiedig â thai i unrhyw berson’
  Mae *cysylltiedig â thai* yn golygu materion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaeth rheoli tai y Cyngor.

- ‘Ymddygiad sydd wedi achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw berson lle mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi digwydd mewn man cyhoeddus’

## 4. Categorïau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans

Mae'r canlynol yn gategorïau a diffiniadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Er nad yw'r rhestr yn hollgynhwysol, gellir ei defnyddio fel canllaw.

***Sŵn***
Gall gynnwys sŵn aml a/neu barhaus o gerddoriaeth/teledu â'r sain yn rhy uchel, partïon rheolaidd, ceir yn cyflymu injan, gweiddi, dadlau, clepian drysau, cŵn yn cyfarth ac ati.

Nid yw hyn yn cynnwys synau cyffredin a rhesymol yr aelwyd megis tynnu dŵr toiledau, babanod yn llefain, clepian drws o bryd i'w gilydd, siarad, plant yn chwarae, sŵn cerdded neu ddigwyddiadau unigryw.

***Aflonyddwch ac ymddygiad bygythiol***
Gall gynnwys gwneud bygythiadau, ymddygiad bygythiol, ystumiau bygythiol, ymddygiad bwlio a phoeni pobl – gall gynnwys defnyddio iaith neu ymddygiad yn bwrpasol i fygythio unigolyn.

***Cam-drin***
Gall hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig gan gynnwys defnyddio iaith frwnt a difrïol.

***Cam-ddefnyddio sylweddau – cyffuriau ac alcohol – cyflenwi, tyfu, defnyddio neu gam-ddefnyddio***
Gall gynnwys cymryd sylweddau, gwerthu/cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon/cyffuriau presgripsiwn, presenoldeb defnyddwyr neu unigolion sy'n delio cyffuriau, tyfu cyffuriau, paraffernalia sy'n ymwneud â chyffuriau ac ati.

***Fandaliaeth/difrod i eiddo***
Gall gynnwys difrod troseddol, fandaliaeth, tanau bwriadol, difrod i adeiladau ac ati.

***Trais corfforol*** *(heblaw cam-drin domestig)*
Trais corfforol, niwed corfforol difrifol, ymosod ac ati.

***Cam-drin domestig***
Gall gynnwys adroddiadau a wnaed gan yr unigolyn yr effeithiwyd arno yn uniongyrchol, aelod o'r aelwyd neu gymydog sy'n dioddef o ofid neu aflonyddwch yn sgil y digwyddiadau.

***Digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb***
Ar sail lliw croen, tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, iaith neu genedligrwydd.
**Trosedd casineb** – trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried sydd wedi cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd gwirioneddol neu ganfyddedig unigolyn.
**Digwyddiad casineb** – digwyddiadau sy'n seiliedig ar ragfarn, ond nad ydynt yn ymwneud â throsedd.

**Niwsans**
Gall hyn gynnwys aflonyddwch neu annifyrrwch a achosir gan grwpiau/gangiau o bobl mewn ardal.

Dyma enghreifftiau o faterion **<u>na</u>** fydd yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn ymchwilio iddynt:

- Niwsans a achosir gan gynnal busnes e.e. prynu/gwerthu ceir
- Sbwriel/gollwng sbwriel/tipio anghyfreithlon
- Niwsans a achosir gan anifeiliaid anwes neu anifeiliaid (heblaw niwsans mewn perthynas â sŵn) e.e. bridio, aroglau a baw anifeiliaid

- Gerddi e.e. gerddi anniben, sbwriel, cynnau coelcerthi
- Camddefnyddio ardaloedd cyffredin neu fannau cyhoeddus e.e. gemau i blant, chwarae gemau, parcio heb ganiatâd ar lecynnau gwyrdd
- Anghydfodau mewn perthynas â ffiniau e.e. anghydfodau ynghylch uchder neu safle ffin
- Anghydfodau parcio

Bydd y mathau uchod o adroddiadau yn cael eu cyfeirio at y swyddfa dai berthnasol gan eu bod yn faterion rheoli ystadau neu'n ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans risg isel. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud i'r materion hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli tai. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

Er mwyn i Cartrefi Caerffili benderfynu a ystyrir gweithredoedd yn ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, bydd yn rhoi ystyriaeth i nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys amlder a difrifoldeb y digwyddiadau, y cyfnod amser y maent wedi digwydd, effaith y digwyddiadau ar y sawl sy'n gwneud yr adroddiad a bwriad y sawl sy'n destun yr adroddiad.

Mae disgwyl y bydd Deiliaid Contract yn gallu datrys materion mewn ffordd gyfrifol ac aeddfed, neu anwybyddu a hefyd beidio â chymryd rhan mewn ymddygiad megis galw enwau, syllu/cilwenu, ystumiau â'r dwylo, gwneud sylwadau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw ymddygiad arall o'r fath. Mae disgwyliad rhesymol i oddef rhai mathau o ymddygiad gan eraill yn ein cymuned, yn achos oedolion a phlant, y gellir ei ystyried yn niwsans, yn gythruddol, yn anghymdeithasol neu'n blentynnaidd. Disgwylir hefyd i fathau tebyg o faterion/anghydfodau sy'n ymwneud â phlant gael eu datrys gan rieni'r plant hynny mewn modd priodol. Mae'r adran tai yn annhebygol o ymchwilio i honiadau o'r math hwn o ymddygiad gan nad yw'n gyfystyr â thorri'r Contract Meddiannaeth y gellid ei orfodi'n gyfreithiol. Y partïon dan sylw sy'n gyfrifol am ddatrys y mathau hyn o faterion.

Wrth ystyried ymddygiad unigolion mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, bydd Cartrefi Caerffili hefyd yn ystyried yr effaith ar aelodau eraill yr aelwyd lle mae rhieni plant yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er bod ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn ddigon hysbys, mae'n medru, ac mae'n cael, effaith ddinistriol ar y gymuned yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Cartrefi Caerffili yn ymwybodol y gallai plant rhieni sy'n ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol hefyd ddioddef o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a gallant, o bosibl, fod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso.

## 5 Datganiad o bolisi cyffredinol

Mae Cartrefi Caerffili yn cymryd yr holl adroddiadau, cwynion a chyhuddiadau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans o ddifrif ac mae wedi ymrwymo yn llwyr i ymdrin â'r achosion a'r effeithiau mewn modd effeithiol a strwythuredig. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau ac amcanion canlynol y maes gwasanaeth:-

*“Ein nod yw sicrhau bod cartrefi fforddiadwy, ynni-effeithlon, sy'n cael eu rheoli'n dda, ac o ansawdd da, yn cael eu darparu mewn cymunedau lle mae pobl yn dymuno byw yn ddiogel, ac sy'n bodloni anghenion pobl yn awr ac yn y dyfodol.”* – Cynllun Busnes Cartrefi Caerffili 2021–2022

Amcan Llesiant 3 – *Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd tai ar draws y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu gwella iechyd a lles pobl.* – Cynllun Corfforaethol 2018–2023

## 5.1 Cyfrifoldebau/disgwyliadau deiliad y contract

Mae deiliaid contract diogel, lesddeiliaid a chyn-denantiaid sydd â chyfamodau caethiwus yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ystyriol o'u cymdogion ac yn cydymffurfio â thelerau eu contract diogel, yn benodol adran 55 o Ddeddf 2016, cytundeb lesddaliad neu gyfamodau.

Adran 55 o Ddeddf 2016 – Ymddygiad gwaharddedig
Mae'r adran hon o Ddeddf 2016 yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan ddeiliad contract mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Mae'n nodi rhaid i ddeiliad y contract beidio ag "ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn modd a allai beri niwsans neu annifyrrwch" ac ni chaiff "ddefnyddio na bygwth defnyddio'r annedd… at ddibenion troseddol."

O ran pobl eraill sy'n byw yn yr annedd neu'n ymweld â'r annedd, mae adran 55 yn nodi: "Rhaid i ddeiliad y contract beidio… caniatáu, cymell nac annog unrhyw berson sy'n byw yn yr annedd neu'n ymweld â'r annedd" i ymddwyn fel y crybwyllir yn y paragraff uchod.

Gall rhai mathau o ymddygiad gael eu hystyried gan rai elfennau o gymdeithas yn ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, wrth i eraill eu hystyried yn ymddygiad cyffredin neu dderbyniol, megis plant bach yn chwarae pêl-droed yn y stryd. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai'r dull mwyaf priodol fyddai dod o hyd i ryw fath o gyfamod sy'n bodloni pob parti. Mewn achosion o'r fath, bydd preswylwyr yn cael eu hannog i ddatrys unrhyw anghydfodau drostynt eu hunain neu ddefnyddio gwasanaethau cymorth megis cyfryngu.

Bydd pob ymateb i ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn gymesur, yn briodol ac yn rhesymol.

Bydd Cartrefi Caerffili yn ceisio darparu dull sy'n canolbwyntio ar y niwed a bydd yn ceisio darparu gwasanaeth cyson, adweithiol ac ymatebol. Bydd pob adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn cael ei gymryd o ddifrif ac yn cael ei drin yn deg, heb ragfarn na ffafriaeth. Fodd bynnag, heb gydweithrediad llawn y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, mae'n anodd iawn cymryd unrhyw gamau. Dylai'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad gael ei asesu gan ddefnyddio matrics asesu effaith. *Gweler Atodiad 1*. Bydd yr asesiad yn helpu i ganfod pa gymorth a dull diogelu sydd eu hangen, o bosibl, mewn unrhyw sefyllfa benodol. Byddwn yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i ddarparu'r cymorth a'r dull diogelu angenrheidiol.

Mae swyddogion yn parchu ac yn ymwybodol o ofynion diwylliannol, a phan fo angen a chyda rhybudd ymlaen llaw, byddwn yn trefnu amseroedd a lleoliadau addas i gyfarfod, a gwasanaethau cyfieithu neu ddehongli priodol.

Wrth ddelio â'r ifanc neu bobl agored i niwed, p'un ai yn sgil anawsterau dysgu, salwch meddwl neu mewn unrhyw fodd arall, rhoddir sylw dyledus i'w bregusrwydd er mwyn sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu trin yn deg.

Ym mhob achos, bydd Cartrefi Caerffili yn mabwysiadu strategaeth sy'n cynnwys cyfuniad o ataliaeth, cymorth a gorfodaeth.

## 6 Atal

Mae Cartrefi Caerffili yn ystyried mesurau atal yn elfen bwysig iawn o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, ac yn eu hystyried hefyd yn ddull rhagweithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd Cartrefi Caerffili yn ymchwilio'n llawn i unrhyw adroddiadau a wnaed ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwiliadol er mwyn profi a datrys materion. Yn ogystal â'r prosesau ymchwiliadol arferol, mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu rhai o'r mentrau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

### 6.1 Cyfryngu

Bydd Cartrefi Caerffili yn ystyried defnyddio cyfryngwyr annibynnol wrth ymdrin ag adroddiadau gan gymdogion a materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Yn aml iawn, gall camddealltwriaeth ac anghydfodau bach gael eu datrys drwy drafodaeth neu ddadl syml yn hytrach na galluogi'r sefyllfa neu gamddealltwriaeth i waethygu. Byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig os yw Cartrefi Caerffili'n teimlo ei fod yn briodol.

### 6.2 Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol

Mae'r Cyngor yn cyflogi nifer o Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol sy'n gweithio ledled y Fwrdeistref Sirol yn cynnig cymorth a phresenoldeb amlwg mewn lifrai gyda'r nod o leihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Bydd wardeiniaid yn patrolio ac yn ymweld ag ardaloedd sy'n peri pryder, fel y'u clustnodwyd, gan adrodd am, a monitro, problemau sydd angen sylw pellach.

### 6.3 Teledu Cylch Cyfyng

Yn ei ymgais i wella diogelwch yn y gymuned, mae'r Cyngor wedi gosod dros 140 o gamerâu Teledu Cylch Cyfyng ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r camerâu hyn, sy'n cael eu hategu gan fan camera symudol, yn trosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol i'r ganolfan reoli lle y gall staff hyfforddedig a phrofiadol alw am gymorth asiantaethau eraill i ymdrin â materion sy'n peri pryder pan fo angen. Bydd y defnydd o Deledu Cylch Cyfyng a dulliau eraill o fonitro bob amser yn cydymffurfio â rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio ac yn cymryd ystyriaeth lawn o'r canllawiau sy'n cael eu cynnwys yn Neddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth hefyd yn rheoli'r defnydd o 3 chamera Teledu Cylch Cyfyng symudol y gellir eu lleoli mewn mannau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Bydd y camerâu Teledu Cylch Cyfyng gan amlaf ar waith am hyd at 12 mis yn unig cyn cael eu symud i ardal arall sy'n peri pryder. Mae'r camerâu wedi'u cysylltu â'r ystafell reoli Teledu Cylch Cyfyng. Rhaid cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran lleoliad y camerâu hyn.

### 6.4 Diogelu drwy Ddylunio

Wrth geisio gwella diogelwch yn y gymuned, mae Cartrefi Caerffili yn chwilio am ddyluniadau mwy arloesol a chyflenwol wrth edych ar fannau amddiffynadwy a newidiadau amgylcheddol. Byddwn yn ceisio parhau i wneud newidiadau i ddyluniad ein hystadau presennol er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a gwella ansawdd bywyd ein deiliaid contract.

### 6.5 Contractau Ymddygiad Derbyniol – gweler 8.3 hefyd

Mae'r Cyngor yn ystyried y defnydd o gontractau ymddygiad derbyniol fel dull mwy cydweithredol o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Bydd swyddogion Cartrefi Caerffili a chynrychiolwyr asiantaethau eraill yn trafod a chytuno ar delerau ac amodau penodol â chyflawnwyr honedig a, lle bo'n briodol, â'u gwarchodwyr a

chynrychiolwyr cyfreithiol, er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Mae contract ymddygiad derbyniol yn gytundeb gwirfoddol rhwng y cyflawnwr, y Cyngor a'r Heddlu.

Ystyrir contractau ymddygiad derbyniol fel mecanwaith atal er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, yn ogystal â phroses addysgiadol a modd o gynnig cymorth i'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a'i deulu pan nodir yr angen.

Cynigir pecynnau cymorth i unigolion sydd angen cymorth yn seiliedig ar eu hamgylchiadau a'u hanghenion canfyddedig. Gall hyn gynnwys defnyddio Mentoriaid a rhwydweithiau cymorth.

### 6.6 Cymorth/Prosiectau dargyfeiriol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i gynnig gweithgareddau, difyrrwch a llwyfannau addysgiadol i bobl ifanc er mwyn eu helpu i deimlo'n rhan o'u cymuned. Fel rhan o'r polisi dysgu gydol oes, byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a throsedd ar y stryd drwy gynnig gweithgareddau amgen sy'n hyrwyddo perchenogaeth gymunedol, addysg ac ymdeimlad o berthyn.

Mae ystod o brosiectau yn cael eu cynnig yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ag ieuenctid ac ymgysylltu â'r teulu.

## 7 Cymorth

Fel rhan o'i weithdrefn rheoli tai, mae Cartrefi Caerffili yn darparu cymorth i ddeiliaid contract newydd drwy weithredu cynllun ymweld â'r cartref ar ôl pennu cartref iddynt. Cynhelir yr ymweliadau hyn ar ôl un mis, a'u pwrpas yw helpu deiliaid contract newydd gyda materion gweinyddol a meddiannaeth.

Yn ogystal, drwy'r Swyddfeydd Tai, mae Cartrefi Caerffili yn cynnig rhwydwaith cymorth hygyrch i'w ddeiliaid contract er mwyn eu helpu i gynnal a chadw eu contractau meddiannaeth. Bydd y cymorth hwn yn cael ei gynnig gan staff Cartrefi Caerffili i gychwyn, ond gellir ei ehangu i staff mwy arbenigol o fewn y Cyngor a'i asiantaethau partner petai'r sefyllfa yn gofyn amdano.

### 7.1 Cymorth i'r sawl sy'n gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Gellir cyflwyno adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn uniongyrchol i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth. Daw atgyfeiriadau eraill drwy nifer o lwybrau eraill, gan gynnwys yr Heddlu, yr Adran Diogelwch Cymunedol, Iechyd yr Amgylchedd ac adrannau eraill y Cyngor.

Dylai'r holl swyddogion fod yn ymwybodol o'r asiantaethau canlynol a all rhoi cymorth i'r sawl sy'n gwneud adroddiad ac/neu ymchwilio i gŵyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu niwsans:

- Heddlu Gwent
- Connect Gwent
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cefnogi Pobl
- Gwasanaeth Lles Addysg
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach
- Uned Cymorth i Dystion Heddlu Gwent

- Y Gwasanaeth i Dystion
- Asiantaethau gwirfoddol eraill, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Gwasanaethau i Fenywod Llamau Caerffili, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Canolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol, Grŵp Mynediad Caerffili, Stonewall Cymru, Mencap Cymru, BAWSO.

Ymdrinnir â'r holl adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn gyfrinachol. Mae Cartrefi Caerffili yn darparu cymorth i'r holl bobl sy'n gwneud adroddiad am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans y mae'n ymchwilio iddynt. Bydd yn gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau cymorth addas fesul achos. Mae'r holl gymorth a gynigir yn amodol ar argaeledd yr adnodd/gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

Bydd matrics asesu'r effaith ar y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cael ei gwblhau ar gyfer y mwyafrif o'r rhai sy'n gwneud adroddiad, er mwyn ein helpu i asesu eu hanghenion cymorth. Mae Cartrefi Caerffili yn gallu gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau eraill, a bydd yn gwneud hynny, er mwyn helpu i gynorthwyo'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Gall ddarparu eitemau gwella diogelwch, megis larymau ar gyfer drysau a ffenestri, larymau ymosod personol, larymau synhwyro ac ati er mwyn helpu'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad i deimlo'n ddiogel yn ei gartref. Ar gyfer y rheini sy'n cytuno i fod yn dystion a darparu datganiadau ffurfiol a mynd i'r llys ar ran Cartrefi Caerffili, mae gan yr Adran Gorfodi Tenantiaeth becyn cynhwysfawr o gymorth fel y manylir arno isod.

### 7.2 Cynllun Cymorth i Dystion

Mae Cartrefi Caerffili yn deall pa mor anodd y gall fod i gytuno i fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth fel person sydd wedi profi a bod yn dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae nifer o bethau gwahanol y mae angen eu hystyried cyn cytuno i fod yn dyst. Er mwyn cynorthwyo preswylwyr drwy'r broses, mae Cartrefi Caerffili wedi sefydlu cynllun cymorth i dystion drwy'r Adran Gorfodi Tenantiaeth.

Os yw unigolyn yn cytuno i ddarparu datganiad ffurfiol, mynd i'r llys a rhoi tystiolaeth fel tyst mewn achos y mae Cartrefi Caerffili yn ei ddwyn yn erbyn person arall, gall Cartrefi Caerffili:

- Ddarparu eitemau gwella diogelwch;
- Trefnu ymweliad â'r llys cyn y gwrandawiad er mwyn i'r tystion gyfarwyddo â'r llys;
- Darparu uned larwm ar wasgar yng nghartref y tyst er mwyn iddo allu galw am help yn gyflym mewn argyfwng (mae angen llinell dir ar gyfer hyn);
- Ad-dalu'r costau y mae tystion yn eu talu (hyd at werth penodol) wrth fynd i'r llys, e.e. colli cyflog, costau teithio, bwyd a diod ac ati;
- Trefnu i gasglu tystion o'u cartref, a'u cludo i'r llys;
- Trefnu bod Swyddog Gorfodi Tenantiaeth/cynrychiolydd Cymorth i Dystion yn mynd i'r llys gyda'r tystion er mwyn rhoi gwybodaeth, cymorth ac anogaeth iddynt yn ystod y gwrandawiad llys.

Mae Cartrefi Caerffili yn ceisio'n barhaus i wella'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig i'r sawl sy'n gwneud adroddiad a thystion. Mae'n ceisio gwella'r gwasanaeth presennol a rhoi argymhellion ynghylch arferion gorau pryd bynnag y bo'n bosibl er mwyn darparu proses gymorth strwythuredig i'r sawl sy'n gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans.

## 7.3 Cymorth i'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans

Mae Cartrefi Caerffili yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb cymunedol nid yn unig i atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, ond hefyd i gynnig cefnogaeth a chymorth i'r unigolion hynny sydd ynghlwm wrth gyflawni ymddygiad o'r fath. Gall darparu cymorth priodol fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol drwy ymdrin â'r rhesymau gwaelodol a'r anghenion cymorth heb eu diwallu. Mae troi tenantiaid sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans allan o'u cartrefi yn aml yn arwain at ddadleoliad yn hytrach na rhoi terfyn ar yr ymddygiad. Mae Cartrefi Caerffili yn ymwybodol bod angen asesu'n briodol yr holl ffactorau sy'n ymwneud â'r adroddiad a sicrhau bod cefnogaeth neu gymorth yn cael eu nodi a'u cynnig lle bo angen.

Mae'r holl gymorth a gynigir yn amodol ar argaeledd yr adnodd/gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ac fe'i cynigir ar sail pob achos. Rhaid cael caniatâd y sawl sy'n destun yr adroddiad cyn y gellir gwneud atgyfeiriad am gymorth.

Darperir y cymorth hwn i'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan asiantaethau allanol ac, ar adeg cyhoeddi, yr asiantaethau hynny yw:

**Panel MYND**

Mae MYND (Mentro, Ymgysylltu a Newid yn Digwydd) yn rhan o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae'n cynnig cymorth i bobl ifanc rhwng 8 a 15 oed sydd wedi cael eu cyfeirio atynt oherwydd eu hymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Mae'r prif ffocws ar blant rhwng 8 a 13 oed; fodd bynnag, os oes gan blentyn gollfarn droseddol, caiff ei eithrio o dderbyn cymorth. Mae MYND yn darparu gweithiwr cymorth sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan a'r person ifanc. Fodd bynnag, mae dulliau cymorth eraill y mae MYND yn eu darparu er mwyn rhoi ysgogiad amgen i'r person ifanc i wella ei ymddygiad yn y tymor hir. Gall MYND gefnogi teulu am hyd at 6 mis.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae *Gwasanaethau i Oedolion* yn darparu ystod eang o wasanaethau arbenigol i aelodau'r gymuned sy'n 18 oed a hŷn ac sy'n cael anawsterau yn ddyddiol o ganlyniad i broblemau sy'n amrywio rhwng anabledd corfforol neu synhwyraidd a chaethiwed i gyffuriau ac alcohol.
Mae *Gwasanaethau i Blant* yn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd. Y nod yw helpu plant a phobl ifanc i dyfu'n ddiogel, i'w galluogi i fyw bywyd hapus a llawn, a'u helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.

**Cefnogi Pobl**

Os yw rhywun dros 16 oed ac yn cael trafferth cadw ei gartref, mewn perygl o golli ei swydd, angen symud neu angen help o ran arian neu unrhyw fath o ddyled, gallai'r Tîm Cefnogi Pobl gynnig cymorth.

Mae Cartrefi Caerffili yn ymwybodol bod angen asesu'n briodol y ffactorau sy'n ymwneud ag adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a sicrhau bod cymorth a/neu gefnogaeth yn cael eu cynnig. Pan fo'r cyflawnwr honedig neu ei ddibynyddion yn ymddangos yn agored i niwed neu angen cymorth, dylai staff y gwasanaeth tai sicrhau y rhoddir gwybod i'r adrannau neu'r asiantaethau perthnasol a bod cymorth yn cael ei gynnig, yn amodol ar yr hyn sydd ar gael. Pan wneir atgyfeiriad at Cefnogi Pobl, byddant yn asesu'r angen ac yn atgyfeirio at y gwasanaeth sydd fwyaf addas i gefnogi'r anghenion hynny.

Nid yw darparu cymorth i'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn atal camau gorfodi ar gyfer torri amodau'r contract meddiannaeth. Pwrpas y cymorth yw gwella'r problemau tymor hir sy'n achosi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Weithiau, mae angen i gymorth a gorfodaeth fynd law yn llaw i fod yn effeithiol. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn methu â chytuno i, gweithio gyda, neu'n rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r asiantaeth cymorth i wella ei ymddygiad, yna gall hyn gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o'i amharodrwydd i wella ei ymddygiad ar gyfer unrhyw gamau gorfodi yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd achosion hefyd lle cymerir camau gorfodi cyn cynnig cymorth.

## 8 Gorfodi

Yn ogystal â chefnogi deiliaid contract newydd, mae Cartrefi Caerffili wedi rhoi neges glir i'w ddeiliaid contract presennol a'i lesddeiliaid drwy ei gontract meddiannaeth a chytundebau lesddeiliaid, na fydd yn goddef unrhyw ymddygiad a ystyrir i fod yn wrthgymdeithasol neu'n debygol o achosi niwsans neu boendod i ddeiliaid contract neu breswylwyr eraill, eu hymwelwyr cyfreithiol neu staff sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i breswylwyr sy'n ymddwyn mewn modd annerbyniol tuag at ddeiliaid contract, lesddeiliaid neu staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau Cartrefi Caerffili, fel landlord. Pwrpas hyn yw dangos bod Cartrefi Caerffili yn cymryd ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans o ddifrif ac mae hefyd yn galluogi Cartrefi Caerffili i weithredu os yw ei ddeiliaid contract neu lesddeiliad yn ymgymryd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans.

Pan geir tystiolaeth mewn perthynas ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, bydd gan Cartrefi Caerffili nifer o ddewisiadau o ran y camau gweithredu posibl y gall eu cymryd. Bydd unrhyw gamau a gymerir yn gymesur â natur a difrifoldeb yr ymddygiad, fodd bynnag, mae dyletswydd arnom i sicrhau nad yw deiliaid contract a lesddeiliaid yn torri unrhyw delerau nac amodau eu contract meddiannaeth neu gytundeb lesddeiliad drwy ymddwyn mewn modd sy'n debygol o achosi niwsans i unigolyn arall neu'r gymuned ehangach. Gall Cartrefi Caerffili ddiogelu buddiannau deiliaid contract a lesddeiliaid hefyd os byddant yn dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall rhai preswylwyr preifat fod yn destun camau gorfodi os ydynt yn wrthgymdeithasol/niwsans i ddeiliaid contract neu lesddeiliaid. Gellir hefyd fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol tuag at staff Cartrefi Caerffili, y gellir ei gysylltu â rôl Cartrefi Caerffili fel landlord cymdeithasol, drwy gamau gorfodi. Mewn perthynas ag achosion parhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd Cartrefi Caerffili yn gweithredu yn seiliedig ar sefyllfa pob achos a bydd yn gymesur â'r ymddygiad a ddangosir.

Gall y camau gweithredu gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- Cymorth i ddeiliaid contract
- Cyfweld â'r sawl sy'n destun hysbys adroddiad, ymweld ag ef neu ysgrifennu ato
- Rhybuddion ysgrifenedig
- Gosod offer monitro sŵn/mynediad at The Noise App/dictaffon
- Cyfryngu
- Contractau Ymddygiad Derbyniol/Contractau Landlordiaid
- Hysbysiad cyn gwneud Hawliad Meddiant/Hysbysiad o fwriad i wneud cais am Orchymyn Ymddygiad Gwaharddedig
- Gwaharddebau Sifil/Gwaharddebau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gorchmynion Cau – llawn a rhannol
- Gorchymyn Ymddygiad Gwaharddedig

- Achos Cymryd Meddiant
- Troi allan

**8.1 Ysgrifennu at/cyfweld â'r sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Gan amlaf, bydd naill ai'r Adran Gorfodi Tenantiaeth neu swyddog priodol yn ysgrifennu at y sawl sy'n destun honedig, neu'n ymweld ag ef, ar ôl ymgynghori â'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn rhoi gwybod i'r testun am yr adroddiad a wnaed, yn esbonio'r effaith y mae ei ymddygiad yn ei chael ac yn gofyn iddo newid ei ymddygiad, os yw'n briodol. Yn aml iawn, mae gwrth-honiadau yn cael eu gwneud a bydd rhaid i'r swyddog sy'n delio â'r adroddiad wneud ymchwiliadau pellach er mwyn casglu'r ffeithiau.

**8.2 Defnyddio offer monitro sŵn**

Ar ôl i adroddiadau am sŵn ddod i law, bydd llythyrau niwsans sŵn yn cael eu hanfon cyn gynted ag y bo modd. Bydd defnyddio offer monitro sŵn yn helpu i ddilysu'r adroddiad a gall arwain at Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiad Lleihau Sŵn.

**8.3 Contractau Ymddygiad Derbyniol** – gweler 6.5 hefyd

Mae Contractau Ymddygiad Derbyniol yn offer defnyddiol ar gyfer y sawl sy'n destun adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n 10 oed a hŷn, ac fe'u defnyddir yn dilyn tri atgyfeiriad cychwynnol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn cael eu trefnu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach drwy gyfarfodydd Strike 3, sy'n cael eu mynychu gan yr holl asiantaethau perthnasol. Mae Contractau Ymddygiad Derbyniol yn wirfoddol.

Os yw'r plentyn/person yn cytuno i'r contract, bydd yr holl bartïon perthnasol sy'n mynychu'r sesiwn yn llofnodi'r contract. Gall y contract sydd wedi'i lofnodi gynnwys yr eitemau canlynol:

- Ardaloedd, strydoedd neu eiddo na ddylai'r unigolyn ymweld â nhw
- Math penodol o ymddygiad y dylai ei osgoi, megis cam-drin geiriol, dringo toeon, ac ati
- Cynnig cymorth drwy fentora, os yw'n berthnasol

Hyd y contract fydd 6 mis. Mae Contractau Ymddygiad Derbyniol yn fecanwaith ar gyfer cymorth a gorfodaeth. Gall torri amodau Contract Ymddygiad Derbyniol gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn cais am Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

**8.4 Contractau Landlordiaid**

Cynigir contract landlord i ddeiliad contract a/neu bartïon cysylltiedig â'r gŵyn i helpu i atal digwyddiadau pellach o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Bydd yn cynnwys rhestr o ymddygiad y cytunwyd arno na chaniateir. Mae'n wirfoddol a bydd angen i ddeiliad y contract ei lofnodi. Gall methu â llofnodi contract landlord gael ei ystyried yn amharodrwydd i eisiau unioni'r problemau.

**8.5 Rhybudd Ysgrifenedig**

Gellir rhoi rhybudd ysgrifenedig ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad. Bydd yn rhybudd a roddir i'r parti perthnasol yn rhoi gwybod iddynt am dorri amodau eu Contract Meddiannaeth neu ymddygiad perthnasol arall ac yn manylu ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i atal achosion pellach o dorri amodau.

**8.6 Rhybudd Ysgrifenedig Olaf**

Gellir rhoi rhybudd ysgrifenedig olaf i'r parti perthnasol pan na wneir addasiadau neu welliannau, a bod y niwsans/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau er gwaethaf y cyngor a/neu gefnogaeth a gynigir i leihau/adfer yr ymddygiad. Y rhybudd ysgrifenedig olaf fel arfer yw'r camau a gymerir cyn y bydd camau cyfreithiol yn cael eu hystyried a/neu eu cychwyn. Os yw'r digwyddiad yn ddigon difrifol, efallai dyma'r cam cyntaf a gymerir.

**8.7 Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Fel arfer, byddai Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei defnyddio mewn achosion sy'n barhaus a/neu ar gyfer lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a hynny ar ôl ystyried cyfarfod Strike 4 amlasiantaeth Caerffili Saffach. Caiff y gorchymyn ei roi gan y llys sifil neu'r llys ieuenctid a, fel y Contract Ymddygiad Derbyniol, bydd gan amlaf yn cynnwys rhestr o ymddygiadau rhagnodedig ar gyfer yr unigolyn, gan gynnwys ardaloedd na chaiff ymweld â nhw. Gall hefyd gynnwys 'gofynion cadarnhaol' a fydd yn ceisio gwneud i'r unigolyn ymdrin â'r rhesymau dros ei ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os yw amodau'r Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael eu torri, gall y llys ystyried nifer o ddewisiadau sy'n amrywio o ddirwy i gyfnod yn y carchar. Gellir gweithredu Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn erbyn unrhyw un sy'n hŷn na 10 oed.

**8.8 Gorchymyn Ymddygiad Troseddol**

Caiff Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ei roi gan y llys troseddol yn erbyn unigolyn sydd wedi'i euogfarnu o drosedd. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y cais yn cael ei wneud gan Wasanaeth Erlyn y Goron naill ai ar ei fenter ei hun neu ar gais yr Heddlu neu'r Cyngor. Mae natur y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol yn debyg iawn i Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (gweler uchod). Gall gynnwys ymddygiadau rhagnodedig a gofynion cadarnhaol. Os yw amodau'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol yn cael eu torri, gall y llys ystyried nifer o ddewisiadau sy'n amrywio o ddirwy i gyfnod yn y carchar.

**8.9 Rhybuddion a Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned**

Pwrpas Hysbysiad Gwarchod y Gymuned yw ymdrin â phroblemau neu niwsans parhaus sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned drwy dargedu'r sawl sy'n gyfrifol. Rhoddir rhybudd ysgrifenedig, sef Rhybudd Gwarchod y Gymuned, sy'n rhoi gwybod i'r unigolyn/busnes am y broblem ac yn gofyn iddo roi terfyn ar y broblem/unioni'r broblem. Os yw'n methu â rhoi terfyn ar y broblem/unioni'r broblem, bydd Hysbysiad Gwarchod y Gymuned yn cael ei gyflwyno sy'n rhestru'r gwaharddiadau, gofynion cadarnhaol neu'r amodau angenrheidiol er mwyn unioni'r broblem y mae'n rhaid eu cyflawni ymhen cyfnod penodol. Mae methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwarchod y Gymuned yn drosedd.

**8.10 Gorchmynion Cau Eiddo**

Mae Gorchymyn Cau yn rym cyflym, hyblyg y gellir ei ddefnyddio i ddiogelu cymunedau drwy gau eiddo sy'n achosi niwsans neu anrhefn yn gyflym. Gall hyn fod yn eiddo busnes yn ogystal ag eiddo preswyl. Caiff y Gorchymyn Cau ei gyflwyno gan y Llys Ynadon a gall fod am hyd at 3 mis. Gall y Llys Ynadon hefyd roi Gorchymyn Cau Rhannol, lle mae'r preswylydd/preswylwyr yn cael aros yn yr eiddo ond nad oes neb arall yn cael bod yn yr eiddo; byddai hyn yn golygu na chaniateir ymwelwyr yn yr eiddo.

## 8.11 Gwaharddebau Sifil

Gellir cael Gwaharddebau Sifil drwy'r Llys Sirol neu'r Llys Ieuenctid, a gellir eu defnyddio naill ai yn erbyn deiliad contract Cartrefi Caerffili neu unrhyw berson arall dros 10 oed er mwyn atal ymddygiad sy'n:

- Medru achosi niwsans neu boendod i unrhyw unigolyn mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw'n meddiannu eiddo preswyl;
- Ymwneud â neu'n cael effaith ar, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, swyddogaethau rheoli tai y Cyngor.

Bydd Cartrefi Caerffili yn ystyried defnyddio Gwaharddeb Sifil er mwyn atal defnydd anghyfreithlon/niwsans o'i eiddo a sicrhau y gellir cyflawni ei swyddogaethau rheoli yn effeithiol.

Os oes bygythiad o drais, neu os yw'n debygol y bydd bygythiad o drais, neu fygythiad o niwed difrifol, gall Cartrefi Caerffili ofyn am Waharddeb Sifil heb hysbysu'r sawl sy'n destun yr adroddiad os yw'n credu bod mesur o'r fath yn rhesymol angenrheidiol er budd diogelwch a lles dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl.

Gall Cartrefi Caerffili ystyried gofyn am waharddeb sy'n cyfyngu ar fynediad i eiddo a mannau penodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Cartrefi Caerffili ofyn am Waharddeb Sifil sy'n eithrio oedolyn o'i gartref.

Lle y bo'n briodol, gall y Llys atodi'r pŵer i arestio unigolyn at y Waharddeb Sifil, ac os yw'r amodau'n cael eu torri gellir ystyried dirwy neu gyfnod yn y carchar.

Os yw Cartrefi Caerffili yn credu bod amodau'r Waharddeb Sifil wedi'u torri, gall ofyn am yr hawl i gymryd camau gorfodi eraill, er enghraifft cychwyn neu barhau â'r achos cymryd meddiant.

Bydd Gwasanaeth Tai y Cyngor yn gweithio gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach ar unrhyw Waharddebau Sifil yn erbyn unrhyw un rhwng 10 a 16 oed. Mae Gwasanaeth Tai y Cyngor yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r pŵer hwn mewn perthynas â phobl sy'n hŷn nag 16 oed er mwyn datrys problemau sy'n berthnasol i Wasanaeth Tai y Cyngor.

## 8.12 Gorchymyn Ymddygiad Gwaharddedig

Pan fo Deiliad Contract yn ymddwyn yn barhaus mewn modd a ystyrir yn wrthgymdeithasol, gall Cartrefi Caerffili wneud cais i'r Llys Sirol am Orchymyn Ymddygiad Gwaharddedig, a fydd yn dod â'r Contract Diogel i ben, ac yn rhoi Contract Safonol Ymddygiad Gwaharddedig yn ei le. Mae Gorchymyn Ymddygiad Gwaharddedig mewn grym am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad cyhoeddi. Os na chyflawnir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol arall, bydd yn dychwelyd i gontract meddiannaeth diogel ar ôl 12 mis. Os bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn ystod y cyfnod o 12 mis, gall Cartrefi Caerffili ofyn am droi testun yr ymddygiad gwrthgymdeithasol allan. Dylid nodi, os oes Gorchymyn Ymddygiad Gwaharddedig ar waith, bydd y meddiannydd yn colli'r fantais o delerau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sy'n berthnasol i Gontract Diogel am gyfnod y Gorchymyn.

## 8.13 Terfynu buddiant cyd-ddeiliad contract

Mae Deddf 2016 yn rhoi'r hawl i Cartrefi Caerffili wneud cais i'r Llys Sirol am derfynu buddiant cyd-ddeiliad contract yn y contract diogel. Effaith hyn fyddai terfynu ei hawliau fel deiliad contract. Y mathau o achosion lle y gallai hyn fod yn berthnasol yw achosion o gam-drin domestig neu le mae un cyd-ddeiliad contract wedi torri

adran 55 o Ddeddf 2016 – sef cymal Ymddygiad Gwaharddedig y contract meddiannaeth. Gallai hyn fod yn briodol pan nad oedd cyd-ddeiliad arall y contract yn ymwybodol neu heb fod yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

### 8.14 Achosion Adennill Meddiant

Gall Cartrefi Caerffili wneud cais i'r Llys Sirol am Orchymyn Adennill Meddiant os yw'n credu bod difrifoldeb ac/neu amlder yr ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn cyfiawnhau cam gweithredu o'r fath. Gall Gorchmynion Adennill Meddiant fod naill ai'n llwyr, yn ataliedig neu'n ohiriedig, a bydd hyn yn benderfyniad y Llys Sirol. Mae Cartrefi Caerffili yn ystyried defnyddio achosion adennill meddiant yn ddifrifol a bydd yn ceisio datrys problemau drwy unrhyw fodd arall cyn cymryd y cam hwn. Fodd bynnag, penderfynir ar y cam gweithredu i'w gymryd yn ôl amgylchiadau pob achos yn unigol, a bydd yn gymesur â'r ymddygiad a ddangosir.

### 8.15 Troi allan

Os rhoddir Gorchymyn Adennill Meddiant, gall Cartrefi Caerffili wneud cais am warant troi allan a fydd yn cael ei weithredu gan feili'r Llys Sirol. Ni fydd deiliaid contract sy'n cael eu troi allan ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hystyried gan Cartrefi Caerffili, mewn amgylchiadau arferol, am ailgartrefu, a dylent gofio y gallai Landlordiaid Cymdeithasol eraill beidio ag ystyried unrhyw geisiadau ganddynt am gymorth tai. Mae Cartrefi Caerffili yn cydnabod bod achosion adennill meddiant, a thoi allan o ganlyniad i hynny, yn ddifrifol iawn a phenderfynir ar unrhyw gam gweithredu i'w gymryd yn ôl amgylchiadau pob achos yn unigol, a bydd yn gymesur â'r ymddygiad a ddangosir.

### 8.16 Gorchmynion llys ar gyfer adennill meddiant – rhesymoldeb

Isod mae rhestr o'r ystyriaethau y mae'n rhaid i'r Llys Sirol eu hystyried wrth ystyried cais am hawliad meddiant. Nodir yr ystyriaethau hyn yn llawn yn Atodlen 10 i Ddeddf 2016.

- Effaith debygol y gorchymyn neu'r penderfyniad ar ddeiliad y contract.
- Os rhoddir gorchymyn gohiriedig, y tebygolrwydd y bydd deiliad y contract yn cydymffurfio â thelerau'r gorchymyn.
- Effaith debygol peidio â gwneud y gorchymyn, neu'r penderfyniad, ar fuddiannau'r landlord.
- Effaith debygol peidio â gwneud y gorchymyn ar allu'r landlord i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â thai.
- Effaith debygol y gorchymyn ar ddeiliaid contractau a meddianwyr y caniateir iddynt feddiannu anheddau eraill y landlord.
- Effaith debygol y gorchymyn ar bersonau sy'n byw, yn ymweld neu fel arall yn ymgymryd â gweithgaredd cyfreithlon yn yr ardal.
- Pa un a yw'r landlord wedi cynnig neu'n ymrwymo i gynnig contract meddiannaeth newydd i un neu ragor o'r personau sy'n meddiannu'r annedd neu'n byw yn yr annedd.
- Budd y cyhoedd yn gyffredinol mewn atal yr ymddygiad y mae Adran 55 o Ddeddf 2016 yn ei wahardd.
- Os gwneir hawliad meddiant ar sail tor contract:
    - natur, amlder neu hyd y tor contract neu'r toriadau contract,
    - y graddau y mae deiliad y contract, neu feddiannydd y caniateir iddo feddiannu'r annedd, yn gyfrifol am y toriad neu'r toriadau,
    - pa mor debygol yw hi y bydd y toriad yn ailddigwydd, ac
    - unrhyw gamau i ddod â'r toriad i ben, neu i'w atal rhag ailddigwydd, a gymerwyd gan y landlord cyn gwneud hawliad meddiant.

## 9 Gwaith partneriaeth amlasiantaeth

Cydnabyddir bod problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn gymhleth ac yn eang, ac ni all y Cyngor weithio yn unigol i ymdrin â'r broblem. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gymryd dull amlasiantaeth o weithio o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans er mwyn dod o hyd i'r ateb mwyaf addas.

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach yn cynnwys chwe phrif sefydliad: y Cyngor, Heddlu Gwent, Awdurdod Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol, er mwyn lleihau trosedd ac ofn troseddau yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol ei fod wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ymchwilio i ymyriadau cymorth posibl a dewisiadau adsefydlu ar gyfer unigolion sy'n dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, yn ogystal â darparu cymorth a sicrwydd i ddioddefwyr o ymddygiad o'r fath. Er mwyn cyflawni hyn, mae cydweithio agos â gweithwyr cymunedol, staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, asiantaethau cyffuriau cymunedol a nifer o grwpiau cymorth eraill. Gweler Adran 7.3 hefyd.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cydnabyddir nad yw'r mwyafrif o bobl a allai fod yn agored i niwed o ganlyniad i'w hamgylchiadau yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, a gall fod yn fwy tebygol eu bod yn ddioddefwyr o ymddygiad o'r fath. Enghreifftiau o hyn yw plant ifanc ac oedolion agored i niwed y gallai eu diogelwch a'u lles gael eu heffeithio gan ymddygiad eu rhieni, gofalwyr neu ymwelwyr. Bydd y Cyngor, wrth fabwysiadau dull amlasiantaeth tuag at ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, yn sicrhau bod atgyfeiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau o'r fath at Wasanaethau i Oedolion a Phlant yn unol â'r prosesau sydd ar waith. Cydnabyddir hefyd y gall rhai unigolion agored i niwed fod yn gyflawnwyr yn ogystal â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mewn perthynas ag atgyfeiriadau ar gyfer plant, dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a phrotocolau a gweithdrefnau a bennir gan Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru, a chymerir yr holl gamau angenrheidiol er mwyn amddiffyn a diogelu plant rhag cam-drin, esgeulustod a chamfanteisio, p'un ai eu bod wedi achosi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans neu eu bod yn ddioddef o ymddygiad o'r fath.

Yn yr un modd, ar gyfer oedolion agored i niwed, dilynir y protocolau a'r gweithdrefnau a bennir gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent, a gwneir yr atgyfeiriadau perthnasol ar gyfer cymorth i'r unigolion sydd angen gofal a/neu gymorth a/neu sydd mewn perygl o niwed o gam-drin neu esgeulustod ac nid oes modd iddynt amddiffyn eu hunain.

Mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth yn barod i weithio gydag unrhyw asiantaeth gydnabyddedig arall er mwyn helpu i ddatrys cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans.

## 10 Polisïau cam-drin domestig

Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ffurf o gam-drin domestig ac mae wedi croesawu amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### 10.1 Diffiniadau

Er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir o wahanol fathau o gam-drin domestig at ddibenion y polisi hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod diffiniad y Swyddfa Gartref o **gam-drin domestig**:

*Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng unigolion 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o deulu, ni waeth eu rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y mathau canlynol o gam-drin:*

*Seicolegol*
*Corfforol*
*Rhywiol*
*Ariannol*
*Emosiynol*

O fewn y diffiniad hwn mae **ymddygiad rheolaethol** yn amrywiaeth o weithredoedd a ddyluniwyd i wneud rhywun arall yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu o ffynonellau o gymorth, ecsbloetio ei adnoddau a'i alluoedd er elw personol, ei amddifadu o'r hyn sydd ei angen ar gyfer byw'n annibynnol, gwrthsefyll a dianc, a rheoli ei ymddygiad pob dydd. Mae **ymddygiad gorfodaethol** yn ddigwyddiad neu'n batrwm o ddigwyddiadau o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd neu fath arall o gam-drin a ddefnyddir er mwyn niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai yn anaml y mae cam-drin domestig yn gyfyngedig i ddigwyddiad unigol a gan amlaf mae'n rhan o batrwm o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

Mae **trais ar sail rhywedd** yn cael yn cael ei anelu at unigolyn yn seiliedig ar ei rywedd. Caiff ei ddiffinio yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 fel:

- ‘Trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.’
- Anffurfio organau cenhedlu benywod;
- Gorfodi person (naill ai drwy rym corfforol neu'n orfodaethol drwy ddefnyddio bygythiadau neu fodd seicolegol arall) i briodi drwy seremoni grefyddol neu sifil (p'un ai'n gyfreithiol neu beidio)

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn diffinio **trais rhywiol** fel:

‘Unrhyw ymddygiad a ganfyddir i fod o natur rywiol nas dymunir ac sy'n digwydd heb ganiatâd na dealltwriaeth. Mae trais rhywiol yn cynnwys unrhyw fath o gyffyrddiad ac ymddygiad rhywiol nas dymunir, yn amrywio o gyffwrdd i unrhyw fath o weithred os yw'n rhywiol.’

At ddibenion y Polisi hwn, defnyddir y term ‘trais’ i gynnwys yr holl ffurfiau o gam-drin a ddiffinnir uchod.

**10.2 Effaith cam-drin a thrais domestig**

Mae rhai o effeithiau cam-drin domestig a thrais rhywiol y gall unigolion eu dioddef yn cynnwys anafiadau corfforol, digartrefedd, hunan-barch isel, anhwylder straen wedi trawma, gorbryder ac anhwylderau seicolegol eraill, allgáu cymdeithasol ac iselder.

Mae gan y Cyngor Bolisi Cam-drin Domestig, Trais ar sail Rhywedd a Thrais Rhywiol ar gyfer gweithwyr y Cyngor.

**10.3 Asiantaethau**

Mae'r Cyngor yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent. Mae hwn yn gydweithrediad amlasiantaeth sy'n cydweithio ar draws Gwent i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i wella'r canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Mae Cartrefi Caerffili yn rhoi cymorth a chyngor i'r rhai sy'n dioddef o gam-drin domestig, gyda chymorth ei bartneriaid – Gwasanaethau i Fenywod Llamau Caerffili, yr Heddlu, Cymorth i Ddioddefwyr a gwasanaethau pwrpasol eraill. Bydd Cartrefi Caerffili hefyd yn gwneud atgyfeiriadau at y Ganolfan Caerffili Saffach, sy'n cael ei rheoli gan Llamau, lle mae asiantaethau rheng flaen yn darparu gwasanaeth hanfodol i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r ganolfan yn seiliedig ar yr egwyddor o siop un stop, a'i bwriad yw ymateb yn gyflym a diogel i ddioddefwyr a'u plant.

Mae Cartrefi Caerffili yn bartner gweithredol yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Pwrpas y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yw lleihau'r risg o niwed difrifol neu ddynladdiad ar gyfer dioddefwyr o gam-drin domestig a chynyddu diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr eraill, yn blant ac yn oedolion. Mewn Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg bydd asiantaethau lleol yn cyfarfod i drafod dioddefwyr sydd â'r perygl uchaf o gam-drin domestig yn eu hardal. Mae'r wybodaeth am y peryglon y mae'r dioddefwyr hynny'n eu hwynebu, y camau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau eu diogelwch, a'r adnoddau sydd ar gael yn lleol, yn cael ei rhannu a'i defnyddio i greu cynllun rheoli risg sy'n cynnwys yr holl asiantaethau. Bydd y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn ceisio amddiffyn y rhai sy'n rhoi gwybod am gam-drin domestig ac sydd â pherygl uchel o gael eu niweidio'n ddifrifol neu eu lladd, a hynny drwy ymateb cydlynol gan yr holl asiantaethau. Mae'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn rhan o strategaeth amlasiantaeth er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

Pan fo'n briodol, bydd staff y Gwasanaeth Tai yn cynnal archwiliadau lles ar eu deiliaid contract ac yn darparu offer gwella diogelwch er mwyn lleihau'r risg o niwed pellach. Dylid hefyd nodi ei fod yn anodd iawn i unrhyw wasanaeth weithio gyda neu gynnig cymorth i ddioddefwyr pan fo'r testun yn dal i fyw yn yr un eiddo, neu'n mynychu cartref y teulu. Gall hyn, yn aml, roi'r dioddefwr ac aelodau eraill y teulu, megis y plant, mewn mwy o berygl o niwed a rhaid cymryd pob gofal i atal hyn rhag digwydd. Gellir trefnu cymorth weithiau drwy drydydd parti megis meddyg, ffrind neu aelod o'r teulu, ond mae hyn yn aml yn anodd.

Mae unrhyw unigolyn sy'n dod at y Gwasanaeth Tai ac yn gwneud cais am ailgartrefu am resymau sy'n ymwneud â cham-drin domestig a/neu drais yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Atebion Tai. Bydd y Gwasanaeth Atebion Tai yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn ym mhob achos a gall ddarparu cyngor a/neu gymorth priodol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 neu'r Polisi Dyraniad Cyffredin ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mewn rhai achosion eithriadol lle nad yw'n ddiogel i ddeiliad contract aros yn ei gartref o ganlyniad i risg uchel o niwed sydyn, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan weithwyr proffesiynol priodol, mae'n bosibl y bydd rhaid darparu lleoliad dros dro mewn argyfwng ac ystyried trosglwyddiad brys. Bydd ceisiadau o'r natur hon yn cael eu harchwilio a'u hystyried ar sail pob achos yn unigol, yn unol â Gweithdrefn Cofnodi Dewisol Rheoli Achosion Cartrefi Caerffili.

Bydd pob achos arall o gam-drin domestig a/neu drais lle na chafwyd cais am ailgartrefu yn cael ei ystyried â chydymdeimlad, a bydd unrhyw gamau priodol neu gymorth a ganfyddir yn angenrheidiol yn cael eu cymryd a/neu eu cynnig. Gallai hyn gynnwys atgyfeiriad a'u cyfeirio at asiantaethau priodol, newid y cloeon, gwella diogelwch, dileu costau am ddifrod i'r eiddo ac ati.

Os oes plant y mae eu diogelwch a'u lles o bosibl mewn perygl o ganlyniad i gam-drin domestig, bydd y Cyngor yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan a Phrotocol Cymru Gyfan: Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu heffeithio gan Gam-drin Domestig.

### 10.4 Cyd-ddeiliaid contract diogel – terfynu buddiant a cham-drin domestig

Gweler Adran 8.11 am fanylion am hyn.

## 11 Digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb

Ystyrir digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb i fod yn unrhyw weithred sydd â'r bwriad neu'r effaith o amddifadu unrhyw berson neu grŵp o bobl o'r cyfle i fyw yn eu cartrefi mewn heddwch, neu o'r cyfle i ddefnyddio gwasanaethau/cyfleusterau lleol, ni waeth eu tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb dros unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall nad oes modd ei gyfiawnhau.

Ni fydd Cartrefi Caerffili yn goddef unrhyw fath o ddigwyddiad casineb a bydd yn gweithredu yn erbyn unrhyw ddeiliad contract, lesddeiliad neu berchen-feddiannydd sy'n achosi gofid i unigolyn oherwydd unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a restrir uchod. Bydd Cartrefi Caerffili yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu a grwpiau cydnabyddedig eraill er mwyn ymdrin ag ymddygiad o'r fath.

Yn ogystal, bydd Cartrefi Caerffili, pan ddaw adroddiadau am ddigwyddiadau casineb i law, gyda chaniatâd y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, yn gwneud atgyfeiriad drwy www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy, a/neu'n cysylltu â'r Tîm Trosedd Casineb neu unrhyw asiantaeth arall a all ddarparu gwasanaethau arbenigol am ystyriaeth a chyngor.

Mae sawl ffurf o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Ymddygiad difrïol, bygythiol neu sarhaus

- Bygythiadau o drais
- Ymosodiad corfforol
- Graffiti gwahaniaethol
- Galwadau ffôn difrïol
- Tanau bwriadol neu ymgais i gynnau tanau bwriadol
- Fandaliaeth
- Cwynion a ailadroddir a chwynion di-sail yn erbyn deiliad contract neu grŵp o ddeiliaid contract
- Gweithredoedd neu weithgareddau y bwriedir iddynt atal person rhag meddiannu eiddo penodol
- Gosod sbwriel, carthion neu ddeunyddiau ymosodol yn agos i gartref y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, neu yng nghartref y sawl sy'n gwneud yr adroddiad.

Mae'r polisi uchod yn dangos ymrwymiad Cartrefi Caerffili a'i agwedd at holl elfennau Cydraddoldeb ac yn ategu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cael ei yrru gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth Cydraddoldeb flaenorol eraill.

## 12 Rhannu gwybodaeth

Er mwyn i unrhyw bolisi ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn llwyddiannus, mae Cartrefi Caerffili yn ymwybodol bod rhaid cael protocol rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng yr holl asiantaethau partner. Mae Cartrefi Caerffili a'i swyddogion yn ymwybodol o'r darpariaethau statudol yn unol ag Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Diogelu Data 2018.

O dan Adran 115, gall unrhyw berson (p'un ai'n unigolyn preifat neu'n aelod o gorff cyhoeddus) ddatgelu gwybodaeth yn gyfreithiol, lle bo angen, neu'n hwylus, at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, i Awdurdod perthnasol neu i unigolyn sy'n gweithredu ar ran Awdurdod o'r fath, hyd yn oed pe na fyddai ganddo'r grym hwn fel arall. O dan y Ddeddf, mae 'Awdurdod perthnasol' yn golygu Prif Swyddogion ardal yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae gan y Cyngor brotocol ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth â Heddlu Gwent ac yn defnyddio hwn i gael gwybodaeth bersonol neu wybodaeth ddedfrydu. Gofynnir am wybodaeth gan Heddlu Gwent pan all gweithredoedd gwrthgymdeithasol/ niwsans deiliad contract, preswylydd neu lesddeiliad gael eu cysylltu â swyddogaeth Rheoli Tai Cartrefi Caerffili.

Dim ond os oes gan yr Adran Gorfodi Tenantiaeth ganiatâd i rannu gwybodaeth ag asiantaeth arall y byddwn yn gwneud hynny; os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith; os yw'n angenrheidiol i ni wneud hynny er mwyn atal niwed i rywun arall neu atal trosedd ac anrhefn.

## 13 Cyfrinachedd

Dylai adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu trin yn gwbl gyfrinachol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan na ellir bwrw ymlaen ag achosion heb ddatgelu pwy yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Mewn achosion fel y rhain, dylid gan amlaf gael caniatâd gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad cyn gweithredu.

Er mwyn diogelu cyfrinachedd y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth yn defnyddio cronfa ddata ddiogel i gofnodi a storio gwybodaeth am y person hwn. Mae Polisi Cadw Cofnodion y Cyngor yn datgan bod rhaid cadw ffeiliau'r Adran Gorfodi Tenantiaeth am gyfnod o chwe blynedd.

## 14 Recordio galwadau ffôn

Bwriad y Cyngor yw cyflwyno cyfleuster recordio galwadau ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n defnyddio'r system ffôn MICCs gorfforaethol. Mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth yn defnyddio'r system ffôn hon. Nid yw'r manylion penodol am y gwasanaeth wedi'u pennu'n derfynol, ond rhoddir gwybod i'r holl alwyr fod yr alwad yn cael ei recordio.

## 15 Hyfforddi staff ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae Cartrefi Caerffili wedi ymrwymo i hyfforddi ei staff ac i ddatblygiad parhaus ei staff. Bydd Swyddogion Gorfodi Tenantiaeth yn cael diweddariadau ynghylch y datblygiadau cyfreithiol diweddaraf o ran cyfraith achosion a deddfwriaeth newydd. Byddant hefyd yn cael hyfforddiant diweddaru gan y Cyfreithiwr mewnol, yn ôl yr angen. Bydd staff yr Adran Gorfodi Tenantiaeth hefyd yn mynychu hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl e.e. newidiadau ym mecanweithiau cymorth, newidiadau deddfwriaethol i wasanaethau cymorth, ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau newydd sydd ar gael, codi ymwybyddiaeth o unrhyw analluogrwydd sy'n effeithio ar ffyrdd o fyw ac ati.

## 16 Monitro ymddygiad gwrthgymdeithasol

Bydd pob adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol neu niwsans gan gymdogion yn cael eu cofnodi, yn cael cyfeirnod unigryw ac fe'i hymdrinnir â nhw yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cartrefi Caerffili. Bydd pob adroddiad yn cael ei gydnabod, ei raddio, ei ddyrannu i'r maes gwasanaeth priodol ac yn destun ymchwiliad. Os yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn anhapus neu'n anfodlon â'r camau gweithredu a gymerwyd, yna gall gyflwyno cwyn i'r Uwch Swyddog Tai (Gwasanaethau i Gwsmeriaid), neu ddefnyddio Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i wneud atgyfeiriad at yr Ombwdsmon ar gyfer Llywodraeth Leol.

Bydd Swyddogion Gorfodi Tenantiaeth yn cynnal adolygiadau o achosion yn rheolaidd â'u rheolwr er mwyn adolygu eu gwaith a rheoli eu llwyth achosion.

Caiff Arolygon Boddhad eu hanfon at y mwyafrif o'r bobl sydd wedi gwneud adroddiad (ac eithrio atgyfeiriadau at asiantaethau) a chaiff yr ymatebion eu dadansoddi'n chwarterol ac yn flynyddol. Mae'r dadansoddiad yn helpu i nodi tueddiadau, canlyniadau dysgu ac adolygiad cysylltiedig o arferion ar gyfer gwelliant parhaus.

### 16.1 Dangosyddion perfformiad

Mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth ar hyn o bryd yn cael ei monitro ar sail y dangosyddion canlynol:

- Camau cyfreithiol a gymerwyd sydd wedi arwain at Orchymyn Llys. Bydd hyn yn rhesymol ac yn gymesur â nifer yr atgyfeiriadau sy'n dod i law ac ni fydd yn fwy na 2% o'r holl atgyfeiriadau.
- Bydd boddhad o ran y modd yr ymdrinnir â chwynion gan yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn cael ei gynnal i safon uchel a bydd yn fwy na 90%.

Caiff ffactorau eraill eu monitro hefyd, gan gynnwys nifer yr adroddiadau a'r math o adroddiadau sy'n dod i law bob blwyddyn, a chydnabod adroddiadau a gwneud cysylltiad o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y weithdrefn.

Gellir addasu dangosyddion perfformiad i adlewyrchu natur newidiol y gwasanaeth.

## 17 Adolygu

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu pan fydd newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau ac arferion da yn ei gwneud hi'n ofynnol.

## RHAN 2 – DATGANIAD O WEITHDREFNAU

### 1 Nodau ac amcanion gweithredu

Dyma amcanion Cartrefi Caerffili mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn:

- Mae gan Cartrefi Caerffili gyfrifoldeb i ddarparu cyngor priodol i ddeiliaid contract sy'n gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans.
- Sicrhau bod gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad a'r sawl sy'n destun yr adroddiad ddealltwriaeth lawn o'r prosesau i'w dilyn mewn perthynas ag adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Sicrhau bod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, p'un ai'n ddeiliad contract, lesddeiliad neu fel arall, yn deall y bydd Cartrefi Caerffili, fel landlord, yn cymryd pob adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans o ddifrif.
- Sicrhau bod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ymwybodol o'r cymorth y gall Cartrefi Caerffili ei ddarparu er mwyn cefnogi a diogelu'r person dan sylw, a'i deulu, yn ystod y broses.
- Sicrhau bod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, os yw'n ddeiliad contract, yn deall ei rwymedigaethau o dan Gontract Meddiannaeth a rôl Cartrefi Caerffili fel landlord.
- Sicrhau y rhoddir y manylion am y swyddog enwebedig neu'r pwynt cyswllt sy'n ymdrin â'r adroddiad i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad a'r sawl sy'n destun yr adroddiad.
- Sicrhau bod y sawl sy'n destun yr adroddiad yn cael cymorth priodol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol drwy ymdrin â'r rhesymau gwaelodol a'r anghenion cymorth heb eu diwallu.
- Sicrhau bod y sawl sy'n destun yr adroddiad yn deall canlyniadau ei ymddygiad a'r camau y gall Cartrefi Caerffili eu cymryd er mwyn datrys y broblem.

### 2 Cyfrinachedd

Dylai adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans gael eu trin yn gwbl gyfrinachol. Fodd bynnag, bydd adegau pan na ellir bwrw ymlaen ag achosion heb ddatgelu pwy yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Mewn achosion fel y rhain, dylid gan amlaf gael caniatâd gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad cyn gweithredu.

Rhoddir gwybod i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad y gall fod rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n dod i law Cartrefi Caerffili mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans a'r sawl sy'n destun trydydd parti yr adroddiad gael ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fodd bynnag, pan wneir cais am ddatgeliad, bydd y Cyngor, fel deiliad cyfreithiol yr wybodaeth honno, yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau a, gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a/neu Ddeddf Diogelu Data 2018, yn sicrhau buddion y sawl sy'n gwneud yr adroddiad uwchlaw popeth arall.

Mewn amgylchiadau lle mae Cartrefi Caerffili wedi ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans drwy'r broses gyfreithiol, bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran a yw'r materion dan sylw yn cael eu datgelu i'r cyfryngau er budd y cyhoedd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd pob achos yn cael ei benderfynu ar ei rinweddau gan ystyried yr holl elfennau.

## 3 Gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae modd gwneud adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, gan naill ai'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn uniongyrchol, ei gynrychiolydd neu aelod o'r teulu, yn dibynnu ar ei amgylchiadau.

Gellir gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â deiliaid contract presennol Cartrefi Caerffili, lesddeiliaid, cyn-denantiaid â chyfamodau cyfyngu a rhentwyr/perchnogion preifat yn uniongyrchol i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth neu yn unrhyw un o Swyddfeydd Tai Cartrefi Caerffili. Gellir gwneud adroddiad yn bersonol, yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy wefan y Cyngor – www.caerffili.gov.uk. Gellir dod o hyd i restr lawn o'r manylion cyswllt yn Rhan 2 – Adran 9.

Bydd pob adroddiad ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn cael ei gofnodi gan yr Adran Gorfodi Tenantiaeth at ddibenion gwybodaeth/monitro perfformiad. Bydd adroddiadau o natur gyffredinol a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt o fewn cylch gorchwyl yr Adran Gorfodi Tenantiaeth (gweler Adran 4 – Polisi) yn cael eu hatgyfeirio at Swyddfa Dai'r Ardal i wneud ymchwiliad iddynt. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud i'r materion hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli tai. Gweler tudalen 6 am enghreifftiau. Bydd yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn ymchwilio i adroddiadau am achosion mwy difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd adroddiadau sy'n cael eu cyfeirio yn anghywir at yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn cael eu hailgyfeirio fel sy'n briodol.

Dylid gwneud adroddiad am ddigwyddiadau rhwng berchen-feddianwyr i Swyddog Diogelwch Cymunedol y Cyngor a fydd yn trefnu, lle bo'n berthnasol, i gydlynu ymateb ar ran y Cyngor.

Mae'n debygol y gofynnir i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad, wrth adrodd am weithredoedd sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans honedig, ddarparu llawer o fanylion i gynorthwyo'r swyddog ymchwilio sy'n ymdrin â'i achos. Dyma enghreifftiau o rai o'r cwestiynau a ofynnir:

- Beth sydd wedi digwydd?
- Ble digwyddodd hyn?
- Pryd digwyddodd hyn?
- Pwy oedd yn gysylltiedig?

Er nad yw'n hanfodol bod gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yr holl wybodaeth uchod wrth law, bydd yn helpu'r Adran Gorfodi Tenantiaeth i ymdrin â'r adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn fwy effeithiol. Dylid cadw tudalennau o ddyddiaduron neu luniau sy'n cofnodi'r digwyddiadau er mwyn casglu gwybodaeth, a gellir eu defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Yn achos adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno'n anhysbys i Cartrefi Caerffili, fe'u hatgyfeirir at yr Adran Archwilio Mewnol i'w cofnodi, ac yna cânt eu trosglwyddo i'r adrannau perthnasol. Os yw achosion o'r fath yn honni ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys deiliaid contract, lesddeiliaid a rhentwyr/perchenogion preifat y gall eu hymddygiad gael eu cysylltu â rôl Cartrefi Caerffili fel landlord cymdeithasol, byddant yn cael eu trosglwyddo i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth, a fydd yn ymchwilio iddynt, os yw'n ymarferol i wneud hynny. Gall hyn gynnwys trafod ag asiantaethau eraill i weld a oes ganddynt unrhyw fanylion am ddigwyddiadau.

## 4 Graddio ac asesu adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans

Ar ôl i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth gael adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans, bydd yn cael ei asesu a'i raddio gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir, gan ystyried yr amgylchiadau a difrifoldeb y sefyllfa. Dylai'r broses hon ddigwydd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r adroddiad cychwynnol ddod i law.

Mae'r canlynol yn ganllaw ar gyfer sut y gall adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans gael eu graddio. Bydd pob adroddiad yn cael ei raddio yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd i gychwyn.

**ADRODDIAD GRADD 1**

- Trais corfforol
- Digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb
- Trais domestig

**ADRODDIAD GRADD 2**

- Cam-drin geiriol ac ysgrifenedig
- Aflonyddwch, bygythiadau ac ymddygiad bygythiol
- Fandaliaeth a difrod i eiddo
- Camddefnyddio sylweddau – cyffuriau ac alcohol

**ADRODDIAD GRADD 3**

- Sŵn
- Niwsans

**ADRODDIAD GRADD 4**

Gweithredoedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn doriad difrifol o'r cytundeb tenantiaeth neu lle mae achos cyfreithiol yn debygol o fod yn amhriodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Niwsans a achosir gan anifeiliaid anwes ac anifeiliaid (heblaw niwsans mewn perthynas â sŵn) e.e. bridio, aroglau a baw anifeiliaid
- Sbwriel, gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Gerddi e.e. gerddi anniben, sbwriel, cynnau coelcerthi
- Camddefnyddio ardaloedd cyffredin neu fannau cyhoeddus e.e. gemau i blant, chwarae gemau, parcio heb ganiatâd ar lecynnau gwyrdd
- Niwsans a achosir gan gynnal busnes e.e. prynu/gwerthu/trwsio ceir
- Anghydfodau ffiniau
- Anghydfodau parcio

Ni fydd yr Adran Gorfodi Tenantiaeth yn ymchwilio i'r materion hyn – gweler y Datganiad o Bolisi – adran 4.0. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud i'r materion hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli tai.

**ADRODDIAD GRADD 5**

Materion ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli tai, ond sydd angen cynnwys adrannau neu asiantaethau eraill. Gallai hyn ymwneud ag adroddiadau traws-ddeiliadaeth.

- Ymddygiad troseddol

Er bydd pob adroddiad, i gychwyn, yn cael ei raddio ar sail yr wybodaeth a ddarperir, amgylchiadau'r achos a difrifoldeb yr ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd pob achos

yn destun adolygiad parhaus a, lle bo angen, yn cael ei ailraddio i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, difrifoldeb y broblem (os yw'n berthnasol) ac anghenion newidiol y sawl sy'n gwneud yr adroddiad.

Bydd achosion sy'n cael eu graddio'n uwch yn cael blaenoriaeth, ac ymatebir iddynt yn gynt, os oes angen blaenoriaethu achosion.

## 5 Ymchwilio i adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Bydd pob ymateb i ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn gymesur, yn briodol ac yn rhesymol. Mae'r Adran Gorfodi Tenantiaeth yn defnyddio dull cynyddrannol, lle bo'n briodol, i ddatrys sefyllfaoedd drwy gynnig cyngor, cymorth ac, os oes angen, atgyfeiriadau i'r asiantaethau cymorth priodol gyda'r nod o leihau'r niwsans. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn briodol, bydd modd defnyddio dulliau cyfreithiol.

### 5.1 Cyfweld â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad

Ar ôl i'r adroddiad cychwynnol am ymddygiad gwrthgymdeithasol ddod i law yr Adran Gorfodi Tenantiaeth, bydd Swyddog yn cysylltu â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad o fewn 5 diwrnod gwaith er mwyn trefnu i gynnal cyfweliad asesu. Bydd achosion sy'n cael eu graddio'n uwch yn cael blaenoriaeth, ac ymatebir iddynt yn gynt. Gellir cysylltu â'r person dan sylw dros y ffôn, drwy ymweld â'r cartref, drwy e-bost neu drwy neges destun.

Bydd y cyfweliad cychwynnol hwn yn caniatáu i'r Swyddog wneud y canlynol:

- Esbonio'r weithdrefn i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad
- Cadarnhau gradd yr adroddiad, yn unol â'i ddifrifoldeb
- Nodi dull priodol o gyfathrebu
- Nodi pecynnau cymorth, os yw'n briodol
- Cytuno ar gynllun gweithredu
- Gosod amserlenni a thargedau realistig i gwblhau'r broses
- Cwblhau asesiad o'r effaith – gweler Atodiad 1

Yn ystod y cyfweliad cychwynnol, gofynnir i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad ddarparu gwybodaeth am ffeithiau'r achos a darparu unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael. Gellir gwneud y cyswllt cyntaf yng nghartref y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, mewn man arall os yw'n well ganddo, dros y ffôn neu drwy e-bost. Ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd hyd nes ar ôl siarad â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad, oni bai bod difrifoldeb y sefyllfa yn drech na hyn. Mae'r holl adroddiadau'n gyfrinachol ac, yn y mwyafrif o achosion, ni fydd hunaniaeth y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cael ei datgelu i'r sawl sy'n destun yr adroddiad, oni bai bod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad wedi cytuno i hynny. Mae sefyllfaoedd lle mae'n anodd iawn cadw manylion y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn gyfrinachol oherwydd natur y digwyddiad, a bydd hyn yn cael ei esbonio i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Os cychwynnir achos cyfreithiol, mae'n anodd iawn cadw hunaniaeth y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn gyfrinachol.

Gofynnir i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad hefyd gadw cofnod o unrhyw ddigwyddiadau pellach. Bydd y Swyddog yn darparu dyddiadur niwsans i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad er mwyn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau newydd. Mae'r dyddiadur niwsans yn bwysig iawn wrth asesu newidiadau yn ymddygiad y testun honedig a darparu gwybodaeth hanfodol os bydd achos llys. Os nad oes modd i rywun lenwi'r dyddiadur niwsans, gellir trefnu iddo gysylltu â'r Adran Gorfodi Tenantiaeth a fydd yn cofnodi'r wybodaeth ar ei ran, neu gellir cytuno ar drefniadau

eraill megis aelod o'r teulu yn cofnodi'r wybodaeth ar ei gyfer. Mae'n bwysig bod gan yr Adran Gorfodi Tenantiaeth gydweithrediad llawn y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystod yr ymchwiliad, a'u bod yn cydweithio i ddatrys yr achos. Yn aml, mae'n amhosibl datrys adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans heb gydweithrediad y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, sy'n hanfodol ar gyfer datrys y problemau y mae wedi adrodd amdanynt. Bydd y Swyddog yn sicrhau ar bob adeg fod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, ac unrhyw dystion, yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses a bod cymorth neu gefnogaeth yn cael eu cynnig iddynt os oes eu hangen arnynt i'w helpu drwy'r hyn a all fod yn adeg llawn straen. Bydd cyswllt yn cael ei gynnal fel y cytunwyd rhwng y swyddog ymchwilio a'r rhai sy'n ymwneud â'r broses.

Os nad yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn dymuno cymryd unrhyw gamau pellach, bydd testun honedig yr achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans, yn y mwyafrif o amgylchiadau, yn cael gwybod am yr adroddiad. Ni fydd y manylion am bwy sydd wedi gwneud adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans yn cael eu datgelu.

### 5.2 Ymchwiliadau ehangach

Bydd cofnodion y Gwasanaeth Tai yn cael eu gwirio i weld a yw'r naill barti neu'r llall yn hysbys i'r Adran Gorfodi Tenantiaeth yn flaenorol. Gall hyn hefyd roi gwybodaeth ynghylch y camau gweithredu gan adrannau eraill o fewn y Gwasanaeth Tai, cysylltiadau blaenorol, cymorth/bregusrwydd y naill barti neu'r llall, y posibilrwydd o gyfuno camau gweithredu ac ati. Gall gwybodaeth am y sawl sy'n gwneud yr adroddiad a'r sawl sy'n destun yr adroddiad fod yn ddefnyddiol wrth lunio camau gweithredu i helpu i ddatrys y sefyllfa. Gall camau presennol neu flaenorol gan Adrannau Tai eraill helpu i gyflymu'r broses a gall y camau gael eu cyfuno.

Gall yr Adran Gorfodi Tenantiaeth wneud ymchwiliadau pellach yn dibynnu ar natur yr adroddiad. Gall hyn gynnwys cysylltu ag asiantaethau eraill megis yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerffili Saffach ac ati am wybodaeth sydd, neu a all fod, yn berthnasol i'r ymchwiliad. Byddai hyn yn helpu i ddeall anghenion/gwendidau, ymddygiad blaenorol (troseddol neu fel arall) y naill barti neu'r llall, i helpu i ddatblygu camau gweithredu, a all gynnwys gweithio amlasiantaeth i leihau/datrys y sefyllfa.

### 5.3 Cyfweld â'r sawl sy'n destun yr adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/ niwsans

Bydd y Swyddog yn cysylltu â'r sawl sy'n destun yr adroddiad er mwyn trafod yr adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans. Penderfynir ble a phryd y bydd y cyfweliad yn digwydd yn ôl natur yr adroddiad. Rhoddir cyfle i'r sawl sy'n destun yr adroddiad roi ei safbwynt ynghylch y digwyddiad sydd wedi arwain at rywun yn gwneud adroddiad amdano ac unrhyw ffactorau y mae'n credu sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

Bydd y dull o ddatrys y mater a adroddwyd yn amrywio, ond gall gynnwys:

- cyswllt ac/neu ymweliadau rheolaidd â'r sawl sy'n destun honedig yr adroddiad
- llythyrau
- cyfryngu
- atgyfeiriad at asiantaethau cymorth
- contract landlord
- gwaith amlasiantaeth
- rhybudd olaf/rhybudd ysgrifenedig olaf
- os na ellir datrys y problemau yn foddhaol, ystyrir camau cyfreithiol.

- cau'r achos

Am restr o gamau gweithredu a all fod ar gael, gweler Rhan 1 – Datganiad o Bolisi – Adrannau 6, 7 ac 8.

### 5.4 Tystiolaeth

Rhaid i unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd fod yn rhesymol, yn gymesur ac yn unol â difrifoldeb y mater a adroddwyd. Rhaid cael tystiolaeth o'r ymddygiad yr adroddwyd amdano cyn gweithredu. Mae angen i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad gydweithredu â'r ymchwiliad a helpu i gasglu tystiolaeth drwy gadw cofnod o'r digwyddiadau ac ati.

Er mwyn cymryd camau cyfreithiol, rhaid i'r dystiolaeth fodloni trothwy'r baich profi sifil – yn ôl yr hyn sy'n debygol. Nid hwn yw'r unig ffactor sydd angen ei ystyried. Rhaid hefyd ystyried rhesymoldeb, cymesuredd, difrifoldeb y digwyddiad/ digwyddiadau, a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto, cyn cychwyn unrhyw gamau cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 8.16 – Gorchmynion llys ar gyfer adennill meddiant – rhesymoldeb. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod yn llawn â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, y swyddog ymchwilio a'r Rheolwr Gorfodi Tenantiaeth. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl mai camau cyfreithiol fydd y camau cyntaf i'w cymryd oherwydd difrifoldeb y digwyddiad yr adroddwyd amdano.

Mae'r rhesymau dros beidio â gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- Dod i ddeall na wnaeth y digwyddiad ddigwydd
- Dim digon o dystiolaeth i fodloni'r safon profi sifil
- Nid yw'r materion a adroddwyd amdanynt yn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae'r ffaith bod y sawl sy'n gwneud yr adroddiad a/neu’r tystion heb gydweithredu wedi atal ymchwiliad trylwyr

Mewn achosion lle nodir esgeulustod neu gam-drin posibl o blant, bydd y Swyddog, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, yn gwneud atgyfeiriad at Adran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol lle bydd yr atgyfeiriad yn cael ei asesu. Mewn perthynas â diogelu oedolyn, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at yr Adran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lle bydd yr atgyfeiriad yn cael ei asesu a'i atgyfeirio at y gwasanaeth priodol, megis Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Pobl Hŷn, Cyffuriau ac Alcohol ac ati.

## 6 Cymorth i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad

Drwy gydol y broses ymchwilio, bydd y Swyddog yn rhoi cymorth i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau cymorth a chadw cysylltiad rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd iddo.

Ar adegau, bydd angen cymryd camau cyfreithiol yn erbyn person, gan nad yw ymyriadau eraill wedi datrys y broblem neu mae'r sefyllfa'n gofyn am y dull hwn o weithredu. Os yw achos llys yn angenrheidiol, bydd y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cael cynnig cymorth a chefnogaeth yn ystod cyfnod a all fod yn llawn straen. Er mwyn i'r camau gweithredu fod yn llwyddiannus, byddwn gan amlaf yn gofyn am ddatganiadau gan dystion annibynnol ac i bobl fod yn barod i fynd i'r llys, os oes angen, er mwyn cadarnhau'r hyn y maent wedi'i weld neu wedi'i glywed neu'r hyn sydd wedi digwydd. Bydd Cartrefi Caerffili yn cynnig cymorth a chefnogaeth yn ystod pob rhan o'r broses. Mewn amgylchiadau eithriadol, ac os yw'r sefyllfa'n haeddu hynny, bydd Cartrefi Caerffili yn ystyried ailgartrefu'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Bydd y swyddog ymchwilio yn cynnig cymorth a chefnogaeth i'r holl bobl sy'n gwneud

adroddiad, a chynigir gwasanaethau'r Cynllun Cymorth i Dystion i'r rhai sy'n cytuno i ddarparu datganiadau ffurfiol a mynd i'r llys sirol fel tystion, fel y disgrifir yn Rhan 1 – Datganiad o Bolisi – Adran 7.2.

Bydd Swyddogion Gorfodi Tenantiaeth yn gweithio tuag at gasglu tystiolaeth annibynnol ac yn gweithredu fel tystion proffesiynol i ategu tystiolaeth ail law mewn achosion lle mae pobl yn teimlo dan fygythiad neu wedi eu dychryn gan y broses ymchwilio. Pwrpas hwn yw atal pwysau neu straen gormodol rhag cael ei roi ar y sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tystiolaeth ail law yn cyfrif llawer llai na thystiolaeth tyst uniongyrchol yng ngolwg Barnwr Rhanbarth, a bydd arwyddocâd hyn yn cael ei egluro'n llawn i'r rhai sy'n ymwneud â phroses y llys.

## 7 Monitro adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Bydd ffeil achos electronig ar wahân yn cael ei chreu er mwyn cofnodi a gweinyddu pob adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob ffeil a defnyddir y ffeil i gadw cofnod manwl o'r holl ymweliadau, sgyrsiau ffôn, llythyrau, negeseuon e-bost, nodiadau o'r cyfweliadau ac ati.

Ar gyfer pob adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol bydd:

- Cofnod cronolegol o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd gan y swyddog ymchwilio. Mae'n bosibl y bydd angen hyn ar gyfer y llys.
- Nodiadau o'r holl ymweliadau, galwadau ffôn, cyfweliadau, copïau o negeseuon e-bost ac ati. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i swyddog arall barhau â'r achos yn absenoldeb y Swyddog sy'n delio â'r achos.
- Yr holl ffurflenni perthnasol a'r dyddiadur wedi'u llenwi.

Bydd achos yn parhau'n agored hyd nes bod y swyddog ymchwilio yn penderfynu cau'r ffeil. Gall hyn fod â chaniatâd y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, neu beidio. Ni fydd achos yn cael ei gau yn syth ar ôl cymryd camau gweithredu, ond bydd yn cael ei fonitro am gyfnod o amser (o leiaf 4 wythnos) er mwyn sicrhau bod y broblem lleihau'n ddigonol neu wedi'i datrys yn gyfan gwbl. Bydd cyfnod yr amser y mae ffeil yn cael ei monitro yn amrywio o achos i achos, yn ddibynnol ar ffactorau megis difrifoldeb y digwyddiad, bregusrwydd y sawl sy'n gwneud yr adroddiad, y camau a gymerwyd, ymchwiliadau cyfredol ac ati.

Os oes digwyddiadau pellach yn ystod y cyfnod hwn, bydd angen i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad gofnodi'r digwyddiadau hynny a bydd adolygiad o'r achos yn cael ei gynnal gyda'r swyddog ymchwilio er mwyn penderfynu'r camau nesaf i'w cymryd. Bydd y dull o gysylltu yn ystod y cyfnod monitro yn amrywio o achos i achos, ond bydd bob amser yn cael ei gytuno rhwng y swyddog a'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Bydd y camau i'w cymryd yn parhau i ddilyn y broses gynyddrannol (os yw hynny dal yn briodol) a bydd camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd yn ôl yr hyn y mae'r swyddog ymchwilio yn ei ystyried yn briodol mewn ymgynghoriad â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad. Weithiau, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r swyddog gymryd camau nad yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cytuno â nhw neu wrthod cymryd y camau y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn eu dymuno. Ar bob adeg, bydd y swyddog yn rheoli disgwyliadau'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn erbyn rhesymoldeb a chymesuredd y camau i'w cymryd.

## 8. Cau'r achos

Bydd yr holl achosion yn cael eu cau drwy un o'r rhesymau canlynol:

- Wedi'i ddatrys

- Wedi'i ddatrys – dim cysylltiad gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad
- Heb ei ddatrys
- Heb ei ddatrys – dim cysylltiad gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad
- Wedi'i gau ar gais y sawl sy'n gwneud yr adroddiad
- Wedi'i gau – wedi'i atgyfeirio at faes gwasanaeth arall
- Dyblygiad
- Rhoddwyd y manylion anghywir am y sawl sy'n gwneud yr adroddiad neu'r sawl sy'n destun yr adroddiad
- Nid yw'n gŵyn sy'n ymwneud â'r maes tai
- Crëwyd ar gam

Mae ‘dim cysylltiad’ yn cyfeirio at y sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn methu ag ymateb i gardiau galw, ymweliadau, negeseuon e-bost, negeseuon testun na llythyrau sy'n gofyn iddo gysylltu â'r swyddog ymchwilio o fewn 7 niwrnod neu bydd y ffeil yn cael ei chau.

Bydd y swyddog ymchwilio yn penderfynu o dan ba gategori y bydd yr achos yn cael ei gau. Bydd achos yn cael ei gau mewn ymgynghoriad â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad (os yw'n bosibl), ond gellir ei gau heb ei gytundeb llawn. Bydd y math hwn o achos yn cael ei gau o dan y categori ‘**heb ei ddatrys**’. Enghraifft o hyn yw pan nad oes dim byd arall y gall y Cyngor, fel sefydliad, ei wneud, ond mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn dymuno cadw'r ffeil yn agored neu'n gwneud cais am gymryd camau nad ydynt yn briodol nac yn gymesur.

Gellir anfon llythyrau at y naill barti wrth gau'r achos, gan roi gwybod iddynt fod y ffeil bellach wedi'i chau ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Mae hyn yn ôl disgresiwn y swyddog ymchwilio. Mae'r rhesymau dros beidio ag anfon llythyrau yn cynnwys bod yr adroddiad a'r broses o gau'r achos wedi'u trafod yn llawn â'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystod cysylltiad terfynol ac nid oes angen anfon llythyr, neu fod y sefyllfa wedi'i datrys bellach a byddai llythyr yn debygol o ailgynnau'r problemau. Bydd y rhesymau dros beidio ag anfon llythyrau am gau'r achos yn cael eu cofnodi yn y ffeil gan y swyddog ymchwilio.

Caiff Arolygon Boddhad eu hanfon at y mwyafrif o'r bobl sy'n gwneud adroddiad (ac eithrio atgyfeiriadau at asiantaethau) a chaiff yr ymatebion eu dadansoddi'n chwarterol ac yn flynyddol. Mae'r holiaduron yn anhysbys ac maent yn cael eu hargraffu ar gefn cardiau post rhagdaledig, felly, dim ond eu llenwi a'u postio sydd eu hangen.

Mae Polisi Cadw Cofnodion y Cyngor yn datgan bod rhaid cadw ffeiliau'r Adran Gorfodi Tenantiaeth am gyfnod o chwe blynedd.

## 9 Manylion cyswllt

**Adran Gorfodi Tenantiaeth**
Tai'r Sector Cyhoeddus
Blwch Swyddfa'r Post 129
Hengoed
CF82 7FN
Ffôn: 01441 811440 E-bost: GorfodiTenantiaeth@caerffili.gov.uk

Swyddfeydd Tai'r Ardal yw:

**Swyddfa Tai Ardal Cwm Rhymni Uchaf**
Tŷ Gilfach
William Street
Gilfach
Bargod
CF81 8ND
Ffôn: 01443 873535 E-bost: STACRhU@caerffili.gov.uk

**Swyddfa Tai Ardal y Cymoedd Dwyreiniol**
E-bost: STACD@caerffili.gov.uk

**Swyddfa Tai Cymdogaeth Parc Lansbury**
45 Attlee Court
Parc Lansbury
Caerffili
CF83 1QU
Ffôn: 029 2086 0917 E-bost: SDCParcLansbury@caerffili.gov.uk

**Swyddfa Tai Cymdogaeth Graig-y-rhaca**
Grays Garden
Graig-y-rhaca
Machen
CF83 8TW
Ffôn: 029 2085 3050 E-bost: SDCGraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

## 10. Argaeledd y polisi a'r weithdrefn

Mae copïau o Ddatganiad o Bolisi a Gweithdrefn Cartrefi Caerffili a Chrynodeb ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar gael ar gais neu gellir eu gweld ar wefan Cartrefi Caerffili – www.caerffili.gov.uk – yn swyddfa'r Adran Gorfodi Tenantiaeth neu mewn Swyddfa Tai leol.

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**
**This publication is available in Welsh, and in other languages and formats on request.**

## Atodiad 1 – Asesiad o'r effaith

# Asesiad o'r effaith

| | |
|---|---|
| Enw: | Cyfeiriad: |
| Rhif yr achos: | Swyddog asesu: |

Pwrpas y cerdyn sgorio hwn yw eich helpu chi i nodi'r sawl sy'n agored i niwed sy'n gwneud adroddiad, tystion ac achwynwyr. Dylid ei llenwi adeg y cysylltiad cyntaf. Dylid ei ddefnyddio fel canllaw, ac ar y cyd â'ch barn eich hun i helpu i gadarnhau pa gymorth ac amddiffyniad sydd eu hangen mewn unrhyw sefyllfa benodol. Dylid trafod yr holl gamau a gymerir o ganlyniad i'ch asesiad â'r person.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hanes | 1. Ac eithrio'r achlysur hwn, pa mor aml yr ydych chi'n cael problemau? | 5 | Bob dydd |
| | | 4 | Bron bob dydd |
| | | 3 | Bron bob wythnos |
| | | 2 | Bron bob mis |
| | | 1 | Dim ond ar adegau |
| | 2. A oes hanes rhyngoch chi a'r sawl sy'n destun yr adroddiad? | 2 | Oes |
| | | 0 | Nac oes |
| | 3. A ydych chi'n credu bod y digwyddiadau'n digwydd yn amlach a/neu'n gwaethygu? | 2 | Oes |
| | | 0 | Nac oes |
| | 4. A ydych chi'n adnabod y sawl sy'n destun yr adroddiad? | 2 | Maen nhw'n adnabod ei gilydd yn dda |
| | | 1 | Maen nhw'n 'hysbys' i'w gilydd |
| | | 0 | Nid ydynt yn adnabod ei gilydd |
| | 5. A oes gan y sawl sy'n destun yr adroddiad (neu ei gydnabyddion) hanes neu enw drwg o ran **bygythiadau neu aflonyddwch?** | 6 | Mae'r sawl sy'n destun yr adroddiad, neu ei gydnabyddion, yn aflonyddu'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad ar hyn o bryd |
| | | 4 | Mae'r sawl sy'n destun yr adroddiad, neu ei gydnabyddion, wedi aflonyddu'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn y gorffennol |
| | | 2 | Mae'r sawl sy'n destun yr adroddiad, neu ei gydnabyddion, heb aflonyddu'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad, ond mae ganddo hanes neu enw drwg o ran aflonyddwch neu ymddygiad treisiol |
| | | 0 | Nid oes gan y sawl sy'n destun yr adroddiad, neu ei gydnabyddion, hanes nac enw drwg o ran aflonyddwch na bygythiadau |
| Bregusrwydd | 6. A ydych chi wedi rhoi gwybod i unrhyw asiantaethau eraill am yr hyn sydd wedi digwydd? Os ydych, a ydych chi'n hapus i ni drafod y broblem hon â nhw? Manylion: | 0 | Ydw |
| | | 1 | Nac ydw |
| | 7. Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl y mae'r digwyddiad hwn wedi'i dargedu'n fwriadol? Nodwch | 4 | Chi |
| | | 3 | Eich teulu |
| | | 1 | Eich cymuned |
| | | 0 | Dim |
| | 8. A ydych chi'n credu bod y digwyddiad hwn yn gysylltiedig â'ch ffydd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, rhywioldeb, rhywedd neu anabledd? | 3 | Ydw |
| | | 0 | Nac ydw |
| | 9. A oes unrhyw amgylchiadau personol a allai gynyddu effaith yr ymddygiad gwrthgymdeithasol arnoch chi/ar eich teulu (e.e. profiadau personol yn y gorffennol, problemau iechyd)? | 3 | Oes |
| | | 0 | Nac oes |
| | 10. Faint o effaith y mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi ei chael arnoch chi? | 0 | Dim o gwbl |
| | | 1 | Ychydig o effaith |
| | | 2 | Effaith gymedrol |
| | | 3 | Effaith fawr |
| | | 5 | Effaith fawr iawn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymorth | 11. A effeithiwyd ar eich iechyd chi neu ar iechyd rywun arall o ganlyniad i hyn ac unrhyw ddigwyddiad blaenorol?<br>Manylion: | 3<br>3 | Iechyd corfforol<br>Iechyd meddwl |
| | **CWESTIWN DEWISOL YN SEILIEDIG AR EICH BARN BERSONOL O RAN A YW'N BRIODOL**<br>12. A oes gennych chi weithiwr cymdeithasol, ymwelydd iechyd neu unrhyw fath arall o gymorth proffesiynol? A oes modd i ni drafod hyn â nhw?<br>Manylion: | 0<br>1 | Nac oes<br>Oes |
| | **CWESTIWN DEWISOL YN SEILIEDIG AR EICH BARN BERSONOL O RAN A YW'N BRIODOL**<br>13. A oes gennych chi unrhyw ffrindiau neu deulu i roi cymorth i chi? | 3<br>3<br>1<br>0 | Mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn byw ar ben ei hun ac wedi'i ynysu<br>Mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad wedi'i ynysu oddi wrth bobl a all gynnig cymorth<br>Mae gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad rai pobl i ddibynnu arnynt am gymorth<br>Mae gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad rwydwaith agos o bobl i ddibynnu arnynt am gymorth |
| | 14. Ar wahân i unrhyw effaith arnoch chi, a ydych chi'n credu bod unrhyw un arall wedi cael ei effeithio gan yr hyn sydd wedi digwydd?<br>Manylion: | 1<br>3<br>0 | Eich teulu<br>Eich cymuned leol<br>Arall |
| | **CYFANSWM Y SGÔR** | | |

Yn seiliedig ar y ffactorau hyn a'ch barn bersonol, addaswch y sgôr yn ôl yr hyn sy'n briodol

**Isel 0 4 8 12 16 20 22 24 26 28 30 Uchel**
**Canolig**

**Camau gweithredu a argymhellir**

**ISEL: 0–16** Cynnig camau i wella diogelwch

**CANOLIG: 16–24** Cynnig camau i wella diogelwch
Ystyried atgyfeiriadau am gymorth: Cefnogi Pobl
Cymorth i Ddioddefwyr drwy Connect Gwent

**UCHEL: 24–30** Cynnig camau i wella diogelwch
Cynnig cadwyn drws
Ystyried gosod Teledu Cylch Cyfyng allanol mawr drwy'r Adran Gorfodi Tenantiaeth a Diogelwch Cymunedol
Ystyried atgyfeiriad at Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol
Os yw'n briodol, cysylltu â'r Heddlu
Ystyried atgyfeiriadau am gymorth: Cefnogi Pobl
Cymorth i Ddioddefwyr drwy Connect Gwent
A oes angen llety argyfwng?

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol o gamau gweithredu a gellir cymryd camau/gwneud atgyfeiriadau eraill yn ôl yr angen.